

# Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025: *Canllaw i gyrff cyhoeddus yng Nghymru*



Mae ***Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025: Canllaw i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (Chwefror 2026)*** wedi cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus drwy Grŵp Cyfeirio Defnyddwyr HIA.

Lluniwyd y ddogfen yn benodol ar gyfer cyrrff cyhoeddus yng Nghymru y mae'n ofynnol iddynt o 06 Ebrill 2027 ymlaen, o dan Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 (y Rheoliadau), gynnal HIA pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau.

Mae canllawiau ar sut i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gwirfoddol mewn amgylchiadau eraill ar gael mewn canllaw ymarfer ar wahân: ***Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw ymarferol ar gyfer arferion gorau gwirfoddol yng Nghymru.***

***Pan ddaw'r Rheoliadau i rym ar 06 Ebrill 2027, cyfrifoldeb cyrrff cyhoeddus yn y pen draw fydd cydymffurfio â nhw, a dylent felly droi at y Rheoliadau eu hunain pan fyddant yn asesu cydymffurfiaeth. Cyhoeddwyd y canllaw hwn i gynorthwyo cyrrff cyhoeddus i gynnal HIA. Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr na llawn o'r sefyllfa gyfreithiol yn y maes hwn. Cynghorir cyrrff cyhoeddus i ystyried y Rheoliadau'n llawn a, lle y bo'n briodol, i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.***

This document is available in English / Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg.

ISBN 978-1-83766-800-7

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Rhagair

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIAs) yn gam beiddgar a blaengar ymlaen yn ein cydgenhadaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ystyfnig a niweidiol, sy'n bla ar fywydau gormod o bobl, ac i sicrhau bod tegwch iechyd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau cyhoeddus.

O 06 Ebrill 2027 ymlaen, rhaid i ystod eang o gyrff cyhoeddus gynnal HIAs pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn adeiladu ar arfer da presennol drwy gyflwyno dull mwy strwythuredig a chyson o ystyried effeithiau ar iechyd. Drwy wneud hynny, mae'n galluogi gwell dealltwriaeth o effeithiau penderfyniadau cyrff cyhoeddus ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl ac yn helpu i nodi mesurau i atal, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol, neu gynyddu effeithiau cadarnhaol.

Datblygwyd y canllaw hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a thrwy brofion gyda chyrff cyhoeddus. Ei nod yw cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu gofyniad cyfreithiol i gynnal HIAs. Mae'r canllaw hwn yn darparu cymorth ac adnoddau ymarferol, a phroses cam wrth gam i sicrhau bod HIAs yn cael eu cynnal mewn modd cymesur, systematig ac i safon uchel.

Mae HIAs yn offeryn hanfodol arall i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Byddant yn ein helpu ni i gyd i ystyried penderfyniadau iechyd ehangach, fel tai, trafnidiaeth, addysg, cyflogaeth, diwylliant, a'r amgylchedd – mae'r rhain i gyd yn ffactorau sy'n cael effaith fawr ar ein bywydau beunyddiol ac, yn y pen draw, yn dylanwadu ar ein canlyniadau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hyrwyddo'r dull hwn ers tro byd – mae cyflwyno HIAs gorfodol yn golygu bod Cymru yn arweinydd byd o ran cymhwyso polisi a deddfwriaeth iechyd y cyhoedd.

Datganiad o fwriad yw hwn. Mae'n arwydd o'n hymrwymiad i waith atal, tegwch, ac i sicrhau nad yw ystyriaethau iechyd yn ôl-ystyriaeth ond yn hytrach yn elfen sylfaenol o'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Rwy'n annog pob corff cyhoeddus i ddefnyddio'r canllaw hwn – nid yn unig i gefnogi cydymffurfiaeth â'r system reoleiddio newydd, ond i hyrwyddo dull cyfannol o ymdrin ag iechyd a thegwch wrth wneud penderfyniadau.

Dyma gam arall tuag at greu Cymru iachach a thecach.

Jeremy Miles

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Chwefror 2026

# Contents

Rhagair	3
Trosolwg	5
A: Diffiniadau allweddol a chyd-destun polisi	7
B: Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)?	11
C: Y broses HIA ar gyfer y Rheoliadau	18
D: Ystyriaethau ychwanegol i gyrff cyhoeddus	33
Geirfa	34
Cyfeiriadau	36
Atodiadau	38

## Trosolwg

Mae **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)** yn broses y gellir ei chymhwyso ar draws pob maes polisi, sector a lleoliad i asesu sut y gallai iechyd, llesiant a thegwch poblogaeth - neu grwpiau penodol o'r boblogaeth honno - gael eu heffeithio, neu sut y maent wedi cael eu heffeithio, gan bolisi, rhaglen, cynllun, penderfyniad neu brosiect. Gall helpu i gryfhau a chynyddu effeithiau cadarnhaol cynnig neu benderfyniad ar iechyd a llesiant i'r eithaf a gall fod o gymorth i liniaru unrhyw ganlyniadau negyddol neu anfwriadol. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar ystyried yr effeithiau ar grwpiau o'r boblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Yn **Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 (y Rheoliadau)**, caiff HIA ei ddiffinio fel asesu effaith debygol, yn y tymor byr a'r tymor hir, gam gweithredu neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru, neu rai ohonynt.



Mae'r canllaw hwn yn cefnogi gyrff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru (y cyfeirir atynt fel 'gyrff cyhoeddus' drwyddo draw; [Atodiad 1](#)) i weithredu eu dyletswydd gyfreithiol i gynnal HIAs ar gyfer y Rheoliadau, a ddaw i rym ar 06 Ebrill 2027. **Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol gynnal HIA pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynglŷn â sut i arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl grŵp o'r boblogaeth a nodir.** Mae'r Rheoliadau'n cynnwys rhywfaint o fanylion am yr hyn y mae'n rhaid i'r gyrff cyhoeddus ei ystyried yn ystod yr asesiad yn ogystal â'r gofynion mewn perthynas â chyhoeddi'r HIA.

Gall y broses HIA gefnogi gweithredu'r cysyniad o Iechyd ym Mhob Polisi sy'n golygu gweithio ar draws systemau a lleoliadau i ystyried iechyd a llesiant a gall helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r canllaw hwn yn darparu cyd-destun ar gyfer HIA yng Nghymru, trosolwg o'r broses HIA ar gyfer gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a rhai adnoddau ymarferol i helpu i gefnogi gweithredu HIA ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol mewn ffordd safonol, gymesur a systematig sy'n effeithiol o ran amser ac adnoddau.

Mae'r canllaw wedi'i rannu'n bedair rhan:

- **A: Diffiniadau allweddol a chyd-destun polisi.**
- **B: Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)?**
- **C: Y broses HIA ar gyfer y Rheoliadau.**
- **D: Ystyriaethau ychwanegol i gyrff cyhoeddus.**

*Pan ddaw'r Rheoliadau i rym ar 06 Ebrill 2027, cyfrifoldeb gyrff cyhoeddus yn y pen draw fydd cydymffurfio â nhw, a dylent felly droi at y Rheoliadau eu hunain pan fyddant yn asesu cydymffurfiaeth. Cyhoeddwyd y canllaw hwn i gynorthwyo gyrff cyhoeddus i gynnal HIA. Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr na llawn o'r sefyllfa gyfreithiol yn y maes hwn. Cyngorir gyrff cyhoeddus i ystyried y Rheoliadau'n llawn a, lle y bo'n briodol, i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.*

## A: Diffiniadau allweddol a chyd-destun polisi



### Iechyd a llesiant

Mae HIA yn seiliedig ar fodel cymdeithasol neu gyfannol o iechyd, yn hytrach na model biolegol sydd ond yn canolbwyntio ar absenoldeb afiechyd neu salwch. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio iechyd fel '*cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid dim ond absenoldeb afiechyd neu wendid*' (Sefydliad Iechyd y Byd, 1948).

Mae edrych ar iechyd mewn ffordd gyfannol yn golygu dau beth allweddol:

1. Gall iechyd olygu pethau gwahanol i bobl wahanol yn dibynnu ar eu bywydau a'u profiadau.
2. Caiff iechyd ei ddylanwadu gan ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd ehangach - gelwir y rhain yn *benderfynyddion iechyd ehangach* (WHO, 2017).

Mae'r Rheoliadau'n nodi, wrth gynnal HIA, bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus nodi ac asesu 'unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl' unrhyw grwpiau o'r boblogaeth a nodir. Wrth asesu'r effeithiau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus 'roi sylw' i'r penderfynyddion iechyd ehangach ac unrhyw ffactorau annhegwch iechyd.

Yng Nghymru, mae iechyd meddwl wedi'i ddiffinio fel 'cyflwr o lesiant meddyliol sy'n galluogi pobl i ymdopi â straen bywyd, gwireddu eu galluoedd, dysgu'n dda a gweithio'n dda, a chyfrannu at eu cymuned'. (Llywodraeth Cymru, 2025a).

O ran unrhyw effeithiau a nodir, wrth gynnal HIA mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus hefyd nodi ac asesu unrhyw fesurau y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol.


## Atal afiechyd

Mae atal afiechyd yng Nghymru yn gofyn am fynd i'r afael â dewisiadau ffordd o fyw a'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd (Llywodraeth Cymru, 2025b). Gall sicrhau mynediad at dai da, addysg, cyflogaeth a chymunedau diogel leihau anghydraddoldebau iechyd yn sylweddol. Mae ymyrraeth gynnar, gwasanaethau cymunedol cefnogol, a pholisïau sy'n hyrwyddo amgylcheddau iach - fel aer glân, teithio llesol, a bwyd maethlon fforddiadwy - yn allweddol i atal salwch. Drwy ddeall y penderfyniadau ehangach hyn a mynd i'r afael â nhw, ochr yn ochr ag annog ymddygiad iach, er enghraifft peidio ag ysmegu, gall Cymru greu amodau ar gyfer llesiant hirdymor a chymunedau cryfach ac iachach.

## Penderfyniadau iechyd ehangach

Gall llawer o sectorau y tu allan i'r sector iechyd ei hun, er enghraifft addysg neu dai, gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar iechyd a llesiant. Mae'r rhain yn dylanwadu ar yr amodau y mae pobl yn cael eu geni a'u magu ynddynt, a'r amodau y maent yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn heneiddio ynddynt. Gelwir y ffactorau hyn yn 'benderfyniadau iechyd ehangach neu gymdeithasol' (Dahlgren a Whitehead, 2021; Y Sefydliad Iechyd, 2023; Ffigur 1). Gall gwahaniaethau o ran y ffordd y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar bobl ddylanwadu ar iechyd a gallant greu neu gynyddu anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol. Gall yr effeithiau hyn fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; yn amlwg ac/neu'n fwriadol; yn anodd eu hadnabod ac/neu'n anfwriadol.

**Ffigur 1: Penderfyniadau iechyd ehangach (Dahlgren a Whitehead, 2021)**



**Mae'r Rheoliadau'n diffinio "benderfyniadau iechyd ehangach" fel y ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all effeithio ar iechyd pobl.**

## Anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd

Gellir diffinio anghydraddoldebau iechyd fel y gwahaniaethau systematig yn statws iechyd a llesiant gwahanol grwpiau (McCartney *et al.*, 2019). Gellir diffinio annhegwch iechyd fel gwahaniaethau mewn statws iechyd sy'n ddiangen, y gellir eu hosgoi, sy'n annheg ac yn anghyfiawn (The Kings Fund, 2025; Gweler Ffigur 2).


### Ffigur 2: Cydraddoldeb o gymharu â Thegwch\*

#### CYDRADDOLDEB:

Mae pawb yn cael yr un peth – p'un a oes ei angen arnynt neu p'un a yw'n iawn iddyn nhw neu beidio.

#### TEGWCH:

Mae pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt nhw – deall y rhwystrau, yr amgylchiadau a'r amodau.



Hawffraint 2022: Sefydliad Robert Wood Johnson

\*Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Sefydliad Robert Wood Johnson, Princeton, NJ (Sefydliad Robert Wood Johnson, 2022).

Yn y pen draw, mae anghydraddoldebau iechyd yn ymwneud â gwahaniaethau yn statws iechyd pobl. Ond defnyddir y term hefyd i gyfeirio at wahaniaethau yn y gofal y mae pobl yn ei dderbyn a'r cyfleoedd a gânt i fyw bywydau iach - a gall y ddau gyfrannu at eu statws iechyd. Felly gall anghydraddoldebau iechyd gynnwys gwahaniaethau mewn:

- Statws iechyd, er enghraifft disgwyliad oes.
- Mynediad at ofal, er enghraifft argaeledd gwasanaethau penodol.
- Ansawdd a phrofiad gofal, er enghraifft lefelau boddhad cleifion.
- Risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig ag ymddygiad, er enghraifft cyfraddau ysmegu.
- Penderfyniadau iechyd ehangach, er enghraifft ansawdd tai (The Kings Fund, 2025).

## Y cyd-destun polisi

Mae Cymru wedi bod yn hyrwyddo dull iechyd ym Mhob Polisi ers tro byd lle mae cyrff cyhoeddus yn 'ystyried goblygiadau iechyd penderfyniadau yn systematig ac yn osgoi effeithiau niweidiol ar iechyd, er mwyn gwella iechyd a thegwch y boblogaeth.' (Canolfan Polisi Iechyd Ewrop, 1999).

Mae **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** (Llywodraeth Cymru, 2017) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu Rheoliadau sy'n amlinellu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol gynnal HIA. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu llunio ers hynny ac maent yn dod i rym ar 06 Ebrill 2027.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Y Ddeddf Llesiant; Llywodraeth Cymru, 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n darparu'r pum ffordd o weithio ar gyfer datblygu cynaliadwy (**integreiddio, hirdymor, atal, cydweithio, a chynnwys**), yn egluro sut y mae'n rhaid i sefydliad nodi ei amcanion llesiant. Nod y 'pum ffordd o weithio' yw ymgorffori egwyddorion iechyd ym Mhob Polisi - er yn ymhlyg a heb eu henwi'n uniongyrchol - er mwyn hyrwyddo saith nod llesiant, sy'n cwmpasu iechyd, tegwch, yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas, a chynnig fframwaith ar gyfer eu cyflawni. Ceir cysylltiad rhwng y nodau hyn a dau ar bymtheg o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (Y Cenhedloedd Unedig, 2020).

Mae'r dirwedd bolisi yng Nghymru yn cynnwys dyletswyddau statudol eraill, megis y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Fel HIA, mae gan ddyletswyddau eraill hefyd ddiben cyffredin i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau poblogaeth, yn benodol ar gyfer y grwpiau hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig (megis oedran, anabled neu ethnigrwydd) neu amgylchiadau gwarchoddedig (megis anfantais economaidd-gymdeithasol).

Mae **Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru 2011** yn rhoi gofyniad ar gyrff cyhoeddus i asesu effaith debygol polisiâu ac arferion ar eu gallu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; sef, sut y maent a) yn dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, b) yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl â nodweddion gwarchoddedig, ac c) yn meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai hebddynt. Defnyddir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIAs) yn rheolaidd fel offeryn i ddeall effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Gall tystiolaeth a gesglir drwy HIA fod yn ddefnyddiol fel sail i asesiadau effaith eraill neu i ddangos bod sylw dyledus wedi'i roi i ddyletswyddau eraill yng Nghymru. Gall HIA helpu i fodloni'r gofynion a amlinellir mewn llawer o'r dyletswyddau eraill.

## B: Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)?



Mewn perthynas â'r Rheoliadau, mae HIA yn broses ymarferol, systematig ond hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir ac unrhyw effeithiau nas bwriedir y mae corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unrhyw grwpiau o'r boblogaeth a nodir. Mewn perthynas ag effeithiau o'r fath, gall HIA gynnwys asesiad o unrhyw fesurau y mae corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol. Mae HIA yn addas i'w ddefnyddio ar draws ystod o leoliadau a sectorau ac mae'n cynnig tystiolaeth a gwybodaeth i lywio prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae HIA yn un o'r prif gyfryngau i hyrwyddo gweithredu'r cysyniad Iechyd ym Mhob Polisi ac mae hefyd yn broses sy'n hyrwyddo cydweithio traws-sector ac yn galluogi cyfranogiad ac ymgysylltiad â phob rhanddeiliad.

**Diffinnir HIA gan y Rheoliadau<sup>1</sup> fel asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr a'r tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl holl bobl Cymru, neu rai ohonynt.**

1 Mewn ymarfer HIA safonol yng Nghymru, mae diffiniadau eraill o HIA yn bodoli. Gweler y Canllaw Ymarferol ar gyfer Arferion Gorau Gwirfoddol ar HIA am ragor o wybodaeth.

## Beth yw manteision cynnal HIA?

Mae HIAs yn cynnig sawl budd i iechyd corfforol ac iechyd meddwl unigolion a chymunedau, drwy ganolbwyntio ar atal. Mae'r manteision hyn yn cynyddu pan gânt eu cynnal cyn i benderfyniad gael ei wneud.

### Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nodi risgiau i iechyd yn gynnar (gwaith atal sylfaenol).
- Gweithio i wneud iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn decach i bawb, fel llwybr i atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau (gwaith atal wedi'i dargedu), yn enwedig ar gyfer grwpiau a allai fod mewn perygl.
- Nodi effeithiau cadarnhaol ac unrhyw effeithiau anfwriadol y mae corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, a nodi ac asesu ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau (gwaith atal ar lefel system). Mae HIA hefyd yn helpu i ganfod bylchau a chyfleoedd.
- Cryfhau ffactorau amddiffynnol sy'n annog cynllunio a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth.
- Helpu gwahanol feysydd polisi i ddeall sut y gall eu gwaith wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cefnogi gwaith tîm, cydweithio ar draws sectorau, ac annog pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.
- Bod yn offeryn ymarferol, hyblyg, a hawdd ei ddefnyddio i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses.
- Hyrwyddo ystyriaeth o iechyd ac anghydraddoldebau ochr yn ochr â dyletswyddau neu asesiadau eraill, sy'n helpu i osgoi ailadrodd gwaith.

Mae rhai ffactorau yn cael effeithiau uniongyrchol ar iechyd, er enghraifft peryglon yn y gweithle fel cemegau. Fodd bynnag, yn aml gall effeithiau fod yn anuniongyrchol, fel swyddi â chyflog gwael heb fawr o reolaeth yn arwain at straen, a allai effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol yn y tymor hir. Mae deall effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn hanfodol er mwyn nodi ble y gallai penderfyniad greu manteision neu risgiau iechyd. Mae adnabod y llwybrau hyn gan ddefnyddio HIA yn cefnogi:

- Dadansoddiad mwy cynhwysfawr.
- Argymhellion cryfach sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gwell cydweddiad rhwng cynllunio a nodau iechyd y cyhoedd.
- Lliniaru effeithiau negyddol anfwriadol yn gynharach.
- Hyrwyddo amgylcheddau sy'n meithrin llesiant hirdymor.

Drwy archwilio sut y gallai penderfyniadau ddylanwadu ar y penderfyniaddion ehangach - a sut y mae'r rhain yn trosi'n effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol - mae HIA yn darparu dull strwythuredig o wneud gwaith atal, gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau.

## Egwyddorion HIA

Mae ymarfer HIA yn seiliedig ar wyth o egwyddorion a gwerthoedd craidd (Ffigur 3). Wrth ddilyn y gwerthoedd hyn, mae'r broses wedi'i hategu gan yr egwyddorion o fod yn ddiduedd ac yn annibynnol.

Ffigur 3: Egwyddorion a gwerthoedd HIA (Canolfan Polisi Iechyd Ewrop, 1999)



## Mathau o HIA

Gall HIAs fod yn gymesur â chyd-destun a chymhlethdod y cynnig sy'n cael ei asesu.

Mae'r Rheoliadau'n manylu ar yr hyn y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus ei wneud wrth gynnal HIA, ond nid ydynt yn rhagnodi'r ffurf neu fath penodol o HIA y dylid ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu, ar yr amod bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau (er enghraifft, drwy nodi ac asesu'r ffactorau hynny sy'n ofynnol gan y Rheoliadau), bod ganddynt hyblygrwydd i addasu eu HIA yn y ffordd y maent yn ei hystyried sydd fwyaf priodol yng nghyd-destun y penderfyniad y maent yn ei wneud.

Yn ymarferol, caiff dau fath gwahanol o HIA eu defnyddio yng Nghymru fel arfer, sef HIA **Cyflym (Safonol)** a HIA **Cynhwysfawr**. Mae'n bosibl i HIA sy'n ofynnol gan y Rheoliadau ddefnyddio elfennau o'r ddau fath, a bennir gan natur y cynnig sy'n cael ei asesu (Ffigur 5). Mae gan gyrff cyhoeddus yr hyblygrwydd i benderfynu pa elfennau o bob un a ddefnyddir, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

Y gwahaniaeth pennaf rhwng **HIA Cyflym (Safonol)** ac **HIA Cynhwysfawr** yw eu dyfnder, eu cwmpas, eu gofynion o ran amser, a'u defnydd o adnoddau (Tabl 1). I grynhoi, mae HIA Cyflym (Safonol) yn gyflymach ac yn defnyddio llai o adnoddau na HIA Cynhwysfawr ac mae'n canolbwyntio ar ddarparu mewnwelediadau amserol a chanddo gwmpas dadansoddi culach. O gymharu, mae HIA Cynhwysfawr yn fwy manwl, yn cymryd mwy o amser ac yn gofyn am lawer o adnoddau ar gyfer dadansoddiad manwl a chyfranogiad helaeth.

Tabl 1: HIA Cyflym (Safonol) a HIA Cynhwysfawr


	HIA Cyflym (Safonol)	HIA Cynhwysfawr
<b>Amser ac adnoddau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cael ei gwblhau o fewn ychydig ddyddiau i ychydig wythnosau.</li> <li>• Angen llai o adnoddau, fel staff a chyllid.</li> <li>• Proses gymesur gywasgedig, sy'n defnyddio llai o adnoddau, sydd fel arfer yn dibynnu ar ddata presennol, gwybodaeth arbenigol neu fewnbwn gan randdeiliaid.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall gymryd rhwng sawl mis a thros flwyddyn i'w gwblhau.</li> <li>• Yn gofyn am fwy o adnoddau, gan gynnwys mwy o gyfranogiad staff, cyllid ac arbenigedd technegol.</li> <li>• Proses drylwyr a all gynnwys casglu data newydd, dadansoddiad manwl neu ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid.</li> </ul>
<b>Cwmpas</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn canolbwyntio ar nodi effeithiau allweddol posibl ar iechyd yn gyflym.</li> <li>• Yn darparu dadansoddiad lefel uchel, yn aml gydag archwiliad llai manwl o'r holl effeithiau posibl ar iechyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn archwilio ystod eang o effeithiau iechyd yn fanwl.</li> <li>• Yn cynnwys archwiliad mwy manwl o lwybrau iechyd ac effeithiau posibl ar draws nifer o grwpiau poblogaeth.</li> </ul>
<b>Cyfranogiad rhanddeiliaid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llai o gyfranogiad helaeth gan randdeiliaid (os ydynt yn rhan o'r broses)</li> <li>• Gellir casglu tystiolaeth gan randdeiliaid drwy ymgynghoriadau presennol neu weithdy HIA cyfranogol gyda rhanddeiliaid allweddol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os cânt eu cynnwys, cesglir adborth a thystiolaeth fwy trylwyr gan gymunedau a sefydliadau yr effeithir arnynt.</li> </ul>

Mae rhagor o wybodaeth am HIAs Cyflym (Safonol) a Chynhwysfawr, gan gynnwys sut i gynnal y rhain, ar gael yn [Atodiad 2: Gwybodaeth bellach am HIAs Cyflym \(Safonol\) a Chynhwysfawr, gan gynnwys adnoddau defnyddiol.](#)

Ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu ar y math o HIA i'w ddefnyddio:

- **Arwyddocâd** i iechyd y boblogaeth.
- **Maint** - maint y boblogaeth yr effeithir arni.
- **Cymhlethdod** - pan fydd gan y penderfyniad strategol effeithiau lluosog ar draws amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, ei boblogaeth a/neu gymunedau penodol.

**Ffigur 5: Mathau o HIA a gwneud y mwyaf o egwyddorion HIA a'u heffaith ar iechyd, llesiant a thegwch\***



\*yn dibynnu ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael

\*\*y gofyniad lleiaf yn y Rheoliadau

Ar gyfer HIAs sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau, mae gan gyrrff cyhoeddus yr hyblygrwydd i benderfynu ar y math o HIA y maent yn ei ddefnyddio; ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y Rheoliadau.

## Cyfranogi a Chymryd Rhan mewn HIA

**Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori nac ymgysylltu â thrydydd partïon wrth gynnal HIA. Fodd bynnag, argymhellir bod pob asesiad yn cynnwys rhywfaint o gyfranogiad gan rhanddeiliaid lle y byddai'n briodol ac yn gymesur i wneud hynny. Ym mhob achos, rhaid i gyrrff cyhoeddus gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Llesiant.**

Mae cyfranogi a chymryd rhan mewn HIA yn rhoi dinasyddion a chymunedau wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau.

Mewn HIA, byddai rhanddeiliaid fel arfer yn cynnwys:

- y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio neu y mae posibilrwydd y cânt eu heffeithio gan gynnig. Er enghraifft, grwpiau poblogaeth penodol, defnyddwyr gwasanaethau neu gymunedau;
- y rhai sy'n ymwneud â chynllunio cynnig a phenderfyniad;
- y rhai sy'n ymwneud â gweithredu cynnig.


Gall rhanddeiliaid gyfrannu at HIA mewn amrywiaeth o ffyrdd megis bod yn rhan o grŵp llywio/ymgyngori (lle y bo'n berthnasol), cyfrannu tystiolaeth a/neu wybodaeth leol neu genedlaethol, helpu i nodi camau lliniaru neu argymhellion i'w gweithredu a monitro neu adolygu HIA.

## Rolau, sgiliau a gwybodaeth mewn HIA

Argymhellir bod tîm o bobl yn cynnal HIAs. Yn aml, mae cydweithio yn elfen allweddol o unrhyw HIA ac mae'r broses yn elwa o ddull cydweithredol er mwyn cynyddu ei grym i'r eithaf. Cynhelir HIAs sy'n effeithlon o ran adnoddau gan dimau bach (yn aml timau amlddisgyblaethol neu amlsgiliau) (Edmonds et al., 2019; Ffigurau 6-7).

**Mae rolau, sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol yn dibynnu ar y math o HIA sy'n cael ei gynnal.**

**Ffigur 6: Rolau mewn HIA**



**Ffigur 7: Gwybodaeth a sgiliau ar gyfer HIA (Edmonds, Parry-Williams and Green, 2019)**



### **Cymhwysedd ac arbenigedd ar gyfer HIA**

Mae llawer o bobl yn betrusgar ynghylch cynnal HIA oherwydd eu bod yn teimlo nad oes ganddynt y profiad, yr amser, y sgiliau, y wybodaeth, yr hyder neu'r cymhwysedd angenrheidiol. Fodd bynnag, mae HIA wedi'i gynllunio i fod yn broses ymarferol a hygyrch y gall unrhyw un ei chynnal gyda'r arweiniad cywir. Gall ymarferwyr, swyddogion llywodraethu corfforaethol, comisiynwyr sy'n defnyddio sgiliau arferol yn rheolaidd yn eu rolau beunyddiol fel y rhai a amlinellir yn Ffigur 7, ac sy'n cynnal eu datblygiad proffesiynol parhaus a chymhwysedd fel rhan o'u hymarfer proffesiynol, gynnal neu arwain HIA am y tro cyntaf. Mae cymorth, offer ac adnoddau, a chyngor (er enghraifft, gan ICC) ar gael a dylid eu defnyddio ochr yn ochr â'r Rheoliadau eu hunain.

## C: Y broses HIA ar gyfer y Rheoliadau


Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i rai cyrff cyhoeddus gynnal HIA pan fyddant yn 'bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau'.

### Gofynion: O dan y Rheoliadau, rhaid i gyrff cyhoeddus:

- Nodi'r penderfyniad y mae'r HIA yn ymwneud ag ef.
- Nodi unrhyw grwpiau o'r boblogaeth y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gall y penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl.
- Nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl grŵp o'r boblogaeth a nodir, gan roi sylw i'r penderfynyddion iechyd ehangach ac unrhyw ffactorau annhegwch iechyd.
- Nodi ac asesu, mewn perthynas ag unrhyw effeithiau a nodwyd, unrhyw fesurau y mae corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol.
- Nodi ac asesu unrhyw beth arall y mae'r corff cyhoeddus yn ei ystyried yn berthnasol i gynnal yr HIA.
- Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gynnal, cyhoeddi'r HIA mewn unrhyw fodd y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol.

## Camau HIA ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru

Mae'r broses HIA fel arfer yn cynnwys camau, sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol mewn ymarfer HIA (Tabl 2). Er y gallai rhai ei hystyried yn broses linellol, mae HIAs yn brosesau ailadroddol sy'n sensitif i dystiolaeth, amserlenni ac amgylchiadau. Er enghraifft, mae'n ddefnyddiol adolygu cwmpas HIA gan y gallai gwybodaeth newydd ddod i'r amlwg yn ystod camau diweddarach y broses.




Tabl 2: Camau proses HIA ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru



Cam	Disgrifiad o'r cam	Gofyniad yn y Rheoliadau
<b>Cam 1: Sgrinio</b>	A oes cynnig i wneud penderfyniad strategol ynghylch sut i arfer swyddogaethau? Os felly, dylid cynnal HIA. Os nad yw'n strategol, gellid ystyried HIA gwirfoddol o hyd. Am ragor o wybodaeth, gweler <i>Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Canllaw Ymarferol ar gyfer Arferion Gorau Gwirfoddol yng Nghymru</i> .	Ydy, bydd yn helpu i nodi'r penderfyniad y mae HIA yn ymwneud ag ef.
<b>Cam 2: Cwmpasu</b>	Diffinio paramedrau'r HIA, pa mor hir y bydd yn ei gymryd, pa adnoddau fydd eu hangen, gan nodi unrhyw derfynau amser, a meddwl am ba dystiolaeth y dylid ei chasglu a'i gwerthuso.	Nac ydy, ond bydd o gymorth i gwmpasu'r adnoddau a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen i gyflawni Cam 3.
<b>Cam 3: Gwerthuso'r Dystiolaeth (Adnabod ac Asesu)</b>	Asesu'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ei chyfuno a'i dadansoddi i greu darlun o'r effaith. Gall y dystiolaeth hon gynnwys llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd, tystiolaeth gan randdeiliaid a data neu ystadegau a gesglir yn rheolaidd.	Ydy, bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw grwpiau o'r boblogaeth y gallai'r penderfyniad effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant corfforol neu feddyliol ac i nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir neu nas bwriedir gan y penderfyniad, y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol ac unrhyw fesurau y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol a allai atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol.
<b>Cam 4: Adrodd*</b>	Cyhoeddi allbwn yr HIA. Gallai hyn gynnwys amlinelliad o'r broses, canfyddiadau ac unrhyw gamau a argymhellir i atal, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol.	Ydy, rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi canfyddiadau'r HIA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn y modd y maent yn ei ystyried yn briodol.
<b>Cam 5: Adolygu a myfyrio gan gynnwys unrhyw waith monitro a gwerthuso</b>	Amlygu cerrig milltir i fesur unrhyw newidiadau yn yr effaith neu p'un a welwyd yr effeithiau a ragwelwyd, gan adolygu'r broses ac unrhyw effaith y gallai fod wedi'i chael ar benderfyniadau a pholisïau yn y dyfodol.	Dewisol

**\*Sicrwydd Ansawdd – Mae'n thema graidd unrhyw HIA a dylid ei hystyried drwy gydol y broses – o'r cam cwmpasu i'r diwedd.** Fel arfer mae wedi'i ymgorffori yn y cam adrodd, neu ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Mae'n galluogi i adolygiad o'r HIA gael ei gynnal er mwyn rhoi hyder yng nghynnwys, canfyddiadau a chadernid proses yr HIA. Mae hyn yn arfer da a argymhellir.

Ffigur 8: Mapiau proses HIA ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru




**Cwmpasu – mewnbynnau i'r asesiad – (Cam 2)\***



Canfyddiadau o'r asesiad, y mesurau a gymerwyd ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

**\*Yn cyd-fynd â phroses 5 cam WHO ar gyfer HIAs**



Mae crynodeb o ba gamau y dylid eu cymryd ym mhob cam ar gyfer pob math o HIA, ynghyd ag adnoddau defnyddiol, ar gael yn [Atodiad 2: Gwybodaeth bellach am HIAs Cyflym \(Safonol\) a Chynhwysfawr, gan gynnwys adnoddau defnyddiol.](#)

## Cam 1: Sgrinio - Penderfynu a ddylid cynnal HIA

Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud yn benderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau. Os ydynt, **rhaid** cynnal HIA.

Os nad ydynt yn benderfyniadau strategol, ystyriwch a ddylid cynnal HIA gwirfoddol. Am ragor o wybodaeth, gweler *Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Canllaw Ymarferol ar gyfer Arferion Gorau Gwirfoddol yng Nghymru*. Dylid cadw cofnod o'r penderfyniad yn sgil y broses sgrinio, gan gynnwys y penderfyniad i beidio â chynnal HIA a pham..

### Beth yw penderfyniad o natur strategol?

Yn gyffredinol, penderfyniadau strategol fydd y rhai sy'n effeithio ar sut y mae'r corff cyhoeddus yn cyflawni ei ddiben statudol bwriadedig (ei swyddogaethau o ran y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser ac ni fyddant yn cynnwys penderfyniadau 'dyddiol' arferol. I rai cyrff cyhoeddus, efallai mai dim ond yn flynyddol y gwneir penderfyniadau o'r fath, ond mewn achosion eraill byddant yn codi'n amlach.

Gall fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y canllawiau ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol sy'n darparu gwybodaeth am benderfyniadau o natur strategol (Llywodraeth Cymru, 2021).

Isod mae rhai enghreifftiau (nid yw'n rhestr gynhwysfawr) o benderfyniadau strategol y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud:

- Cyfarwyddeb a bwriad strategol.
- Cynlluniau tymor canolig neu dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella).
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb Deddf Cydraddoldeb (2010), strategaeth y Gymraeg).
- Newidiadau i ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus.
- Cynllunio ariannol strategol.
- Penderfyniadau mawr ynghylch caffael a chomisiynu.
- Datblygu polisi strategol.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus gynnal HIA pan fydd yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynglŷn â sut i arfer ei swyddogaethau. Felly, dylid cynnal HIAs sy'n ofynnol gan y Rheoliadau 'yn rhagolygol' (h.y. **cyn i'r penderfyniad gael ei wneud**) a pheidio ceisio eu haddasu i gyd-fynd â phenderfyniad sydd eisoes wedi cael ei wneud. Mae hyn yn caniatáu i'r buddion gael eu cynyddu i'r eithaf ac i ganlyniadau anfwriadol posibl gael eu lliniaru.

## Cam 2: Cwmpasu – Sefydlu'r math o HIA a'i gwmpas

**Prif bwrpas:** Sefydlu sut y cynhelir yr HIA, gan gynnwys nodi trefniadau llywodraethu a logisteg yr HIA ac egluro rolau a chyfrifoldebau allweddol ochr yn ochr â chytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer yr HIA.

**Cydnabyddir bod y cam cwmpasu yn allweddol o ran sicrhau HIA o safon.** Mae'n bwysig adolygu cwmpas a dyfnder yr HIA a'u diwygio (yn ôl yr angen) drwy gydol y broses er mwyn sicrhau bod yr HIA yn parhau i gyflawni ei nodau. Er enghraifft, wrth i dystiolaeth gael ei chasglu drwy gydol y broses HIA, gall penderfyniadau a grwpiau poblogaeth newydd gael eu nodi drwy dystiolaeth newydd neu efallai na fydd unrhyw dystiolaeth o effaith felly gellir cau rhai meysydd pwnc.

Mae'r cam cwmpasu'n cynnwys ystyried:

- **Amcanion a ffocws** - nod ac amcanion yr HIA, elfennau'r cynnig y dylid canolbwyntio arnynt, a ffiniau daearyddol.
- **Proses** - y math o HIA, y raddfa a'r cymesuredd, yr offer a'r fframweithiau asesu i'w defnyddio, y dystiolaeth sydd ei hangen a sut y bydd argymhellion ac adroddiadau'n cael eu gwneud.
- **Rheoli Prosiectau a threfniadau llywodraethu** - amserlenni, grŵp llywio, a fydd yr HIA yn cael ei gwblhau o fewn y corff cyhoeddus neu a fydd yr HIA yn cael ei gomisiynu i gontractwr preifat allanol gwblhau'r gwaith, yr adnoddau sydd eu hangen, y rolau a'r cyfrifoldebau.

### Sut?

**Nid yw'n hanfodol sefydlu Grŵp Llywio** ond gall fod yn ffordd effeithiol o rannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y broses a dosbarthu tasgau. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect, ond mae'r nifer delfrydol rhwng pedwar a 12 o bobl. Gall cynrychiolwyr o grwpiau neu sefydliadau rhanddeiliaid allweddol fod yn rhan o'r broses gan fod hyn yn helpu i hyrwyddo cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni. Mae'r dull hwn hefyd yn hyrwyddo elfennau o'r pum ffordd o weithio ac egwyddor datblygu cynaliadwy – sef cydweithio a chynnwys.

Mae **Templed cwmpasu HIA** ([Atodiad 3](#)) ar gael i helpu i arwain sgysiau a gwneud cofnod o benderfyniadau.

### Awgrymiadau allweddol:

- Dylech drin hwn fel y cam cynllunio allweddol. Bydd y cam hwn yn helpu i gadarnhau pwrpas a chymesuredd yr HIA a sut y bydd yn cael ei gynnal a pha benderfyniadau a grwpiau y bydd yn canolbwyntio arnynt.
- Sicrhewch fod y bobl gywir o amgylch y bwrdd er mwyn gwneud yr HIA yn llwyddiant.
- Byddwch yn realistig a chynlluniwch ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlen a'r adnoddau sydd ar gael.
- Cydnabyddwch y gallai fod angen adolygu'r HIA wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r amlwg, er enghraifft yn ystod argyfyngau gallai HIA cyflym iawn fod yn briodol ond wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg a'r argyfwng uniongyrchol fynd heibio, efallai y bydd angen HIA mwy manwl.

## Cam 3: Gwerthuso'r dystiolaeth er mwyn nodi ac asesu tystiolaeth

**Prif bwrpas:** Casglu tystiolaeth (gan gynnwys gwybodaeth gyd-destunol leol, ranbarthol neu genedlaethol, data a llenyddiaeth gyhoeddedig a llenyddiaeth lwyd sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid) ynghylch natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad posibl effeithiau'r cynnig ar iechyd, llesiant a thegwch, ar draws grwpiau poblogaeth.

O dan y Rheoliadau, fel rhan o'r broses o gynnal HIA, rhaid i gyrff cyhoeddus 1) nodi ac asesu 'unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unrhyw grwpiau o'r boblogaeth' a, 2) mewn perthynas â'r effeithiau a nodir, 'unrhyw fesurau y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol'.

Dyma brif gam y broses HIA lle mae'r dystiolaeth yn cael ei chasglu a'i hasesu i nodi'r effeithiau posibl neu wirioneddol ar iechyd. Drwy gasglu tystiolaeth bresennol a newydd, mae'r cam hwn yn rhoi'r cyfle i nodi ffyrdd posibl o wneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol ac atal, lleihau neu liniaru'r effeithiau negyddol. Mae hyn hefyd yn darparu cysylltiadau i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Dylai'r cam hwn fod yn gymesur â'r math o HIA sy'n cael ei gynnal. Er enghraifft:**

- Gallai HIA Cyflym (Safonol) ddibynnu'n bennaf ar ddata a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, ochr yn ochr ag adborth o unrhyw ymgynghoriad neu weithdai ansoddol a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid.
- Ar y llaw arall, dylai HIA Cynhwysfawr ddibynnu ar ystod fwy cymhleth o ffynonellau tystiolaeth.

Gellir defnyddio'r adnodd **Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Iechyd a Llesiant Ehangach** ([Atodiad 4](#)) fel canllaw, i helpu cyrff cyhoeddus i nodi unrhyw grwpiau o'r boblogaeth y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallai'r penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl. Nid yw'r adnodd hwn yn gynhwysfawr, nac wedi'i fwriadu i'w ddilyn fesul pwynt, ond gellir ei ddefnyddio i helpu i ysgogi trafodaethau ac ystyriaethau ynghylch pa grwpiau (os o gwbl) sy'n cael eu heffeithio a sut, a pha dystiolaeth sydd angen ei chasglu i ddeall yn well yr effeithiau ar iechyd corfforol neu feddyliol y grwpiau hynny.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus nodi unrhyw grwpiau o'r boblogaeth y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallai'r penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl. Er enghraifft, gallai cyrff cyhoeddus ystyried unrhyw grwpiau o'r boblogaeth sydd, neu a allai fod, yn agored i

effeithiau negyddol anfwriadol polisi, cynllun, cynnig neu benderfyniad megis y rhai mewn cymunedau gwledig, y rhai sydd mewn perygl o ddiodeff ynysu cymdeithasol a chael eu hallgáu, a gofalu. Dylid hefyd nodi grwpiau poblogaeth y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallent elwa o benderfyniad hefyd.

O dan y rheoliadau, wrth nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unrhyw un o'r grwpiau poblogaeth a nodir, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i benderfynyddion iechyd ehangach ac unrhyw 'ffactorau annhegwch iechyd'.

**Mae'r Rheoliadau'n diffinio "ffactorau annhegwch iechyd" fel iechyd a chyfleoedd iechyd y gellir eu hesbonio'n rhesymol, neu y gallant fod wedi eu hachosi'n rhesymol, gan unrhyw sail, gan gynnwys -**

- (i) statws economaidd-gymdeithasol**
- (ii) lleoliad daearyddol, a**
- (iii) presenoldeb nodwedd warchoddedig o fewn ystyr "protected characteristic" ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010;**

**At ddibenion y diffiniad uchod, mae "cyfleoedd iechyd" yn golygu mynediad at gyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd y mae'r corff cyhoeddus sy'n cynnal yr HIA yn ystyried yn rhesymol eu bod yn hybu neu'n gwella iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu y bwriedir iddynt wneud hynny.**

**Mae'r Rheoliadau hefyd yn diffinio "penderfynyddion iechyd ehangach" fel y ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all effeithio ar iechyd pobl.**


Gall yr adnodd ***Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Iechyd a Llesiant Ehangach*** ([Atodiad 4](#)) hefyd gynorthwyo gyda nodi ac ystyried y penderfynyddion ehangach a ffactorau tegwch iechyd (gan gynnwys cyfleoedd iechyd) fel rhan o'r asesiad. Mae'r rhestr wirio yn cynnwys amrywiaeth o ffactorau (megis ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) a all effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl. Er enghraifft, gallai ffactorau diwylliannol fod yn bethau fel y Gymraeg neu ieithoedd a diwylliannau eraill a'r ffordd y mae grwpiau diwylliannol yn rhyngweithio â'i gilydd neu â gwasanaethau. Unwaith eto, nid yw'r adnodd yn Atodiad 4 yn rhestr gynhwysfawr, a gallai penderfynyddion eraill fod yn berthnasol.

Ar ôl i grwpiau o'r boblogaeth a'r penderfynyddion ehangach a ffactorau tegwch iechyd gael eu nodi a'u trafod, y cam nesaf yn y broses yw nodi tystiolaeth i asesu'r effeithiau posibl ar y grwpiau a'r ffactorau hyn yn unol â gofynion y Rheoliadau. Gellir nodi grwpiau poblogaeth a phenderfynyddion iechyd pellach hefyd ar ôl i'r data a'r dystiolaeth gael eu hasesu.

## Pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio wrth gynnal HIA?

Gall HIA ddefnyddio mathau **ansoddol a meintiol** o dystiolaeth, sy'n **gymesur** i'r math o HIA sy'n cael ei gynnal. Gellir casglu tystiolaeth drwy gyfuniad o waith casglu data cynradd (gwybodaeth newydd), a chasglu data eilaidd gan ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth presennol (Ffigur 9).

**Ffigur 9:** Enghraifft o ffynonellau tystiolaeth



## Gall ffynonellau tystiolaeth ar gyfer yr HIA gynnwys rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt:

### 1. Gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid cyfranogol

---

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid fod yn ffynhonnell dystiolaeth werthfawr, gan roi darlun o faterion lleol neu genedlaethol. Gallai helpu i ddatblygu dealltwriaeth o brofiadau pobl yr effeithir arnynt gan gynnig a'u gwybodaeth benodol am y pwnc, yr ardal neu'r gymuned.

Gallai hyn amlygu effeithiau cadarnhaol neu negyddol annisgwyl na fyddant yn amlwg ar unwaith, o bosibl, i'r rhai sy'n arwain y cynnig, yn enwedig os nad ydynt yn dod o'r gymuned leol neu'n gweithio'n rheolaidd yn y maes pwnc. Mae methodolegau enghreifftiol fel a ganlyn:

- Gweithdai HIA cyfranogol - dod â rhanddeiliaid ynghyd i drafod y cynnig, tystiolaeth o effaith, ac atebion posibl. Mae enghraifft o Agenda gweithdy HIA i'w weld yn Atodiad 5 ac enghraifft o Dimpled cofnodi gweithdy HIA i'w weld yn Atodiad 6..
- Ymatebion o unrhyw ymgynghoriad(au) presennol neu barhaus sy'n ymwneud â'r penderfyniad (os yw ran o'r ffordd drwy'r broses gwneud penderfyniadau strategol), ac unrhyw ddata ac adborth o weithdai neu grwpiau ffocws a allai fod wedi'u cynnal mewn perthynas â'r penderfyniad.
- Holiaduron neu/arolygon - gall fod yn ddefnyddiol casglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol gan ystod eang o randdeiliaid.
- Grwpiau ffocws penodol ar gyfer HIA - casglu gwybodaeth fanwl gan grŵp bach o bobl. Mae angen rhywun i arwain y drafodaeth grŵp.
- Cyfweiliadau unigol - casglu gwybodaeth fanwl gan un neu ddau o bobl ar y tro.

Nid oes angen cymeradwyaeth foesegol fel mater o drefn ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid na'r gymuned mewn HIA. Fodd bynnag, mae caniatâd gwybodus gan randdeiliaid yn hanfodol a rhaid egluro pwrpas yr ymarfer casglu tystiolaeth.

### 2. Data ar y boblogaeth leol a phroffiliau poblogaeth

---

Dylai proffil poblogaeth fod yn berthnasol i'r cynnig a'r cyd-destun – mae dehongli yn hanfodol ar gyfer proffil HIA sy'n llawn gwybodaeth.

Gall proffiliau yn aml gynnwys:

- Priodoleddau cyffredinol y boblogaeth (gan gynnwys maint, dwysedd, oedran, rhyw, incwm a chyflogaeth, statws economaidd-gymdeithasol ac ati).
- Statws iechyd, yn enwedig y grwpiau poblogaeth sydd eisoes wedi'u nodi fel rhai agored i niwed ac sy'n debygol o elwa o'r cynnig/prosiect/polisi neu gael eu niweidio ganddynt.
- Dangosyddion ansawdd bywyd.
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r pwnc sy'n cael ei asesu. Gallai hyn gynnwys data ar dai, trafnidiaeth, ffactorau amgylcheddol a brofir, asedau cymunedol, mynediad at/defnyddio gwasanaethau.

Awgrymiadau ar gyfer ffynonellau data meintiol (nid yw'n gynhwysfawr):

- [StatsCymru, gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\).](#)
- [Arolwg Cenedlaethol Cymru.](#)
- [Iechyd Cyhoeddus Cymru.](#)
- [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan gynnwys data'r Cyfrifiad.](#)
- [Data Cymru.](#)
- [Ystadegau Llywodraeth Cymru.](#)
- [Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau \(OHID\) – Ymchwil ac ystadegau.](#)
- [Cyfoeth Naturiol Cymru.](#)
- [Sefydliad Iechyd y Byd.](#)
- [Adroddiadau Llesiant Cymru.](#)
- Data a gesglir yn rheolaidd o fewn y sefydliad.
- Adroddiadau sefydliadol sy'n cynnwys data meintiol.
- Data awdurdodau lleol.
- Data'r Bwrdd Iechyd a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus.

Gellir defnyddio dulliau dadansoddi meintiol hefyd i nodi ac yna fesur a rhagweld effeithiau ar iechyd. Gall y rhain fod yn bwysig i asesu amrywiaeth o faterion gan gynnwys effeithiau amgylcheddol a pholisi ar iechyd, er enghraifft, ansawdd aer. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad 7](#).

### 3. Adolygiad o lenyddiaeth/tystiolaeth

---

Gallai ffynonellau llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes gynnwys:

- Llenyddiaeth academiaidd a llwyd.
- Adolygiadau systematig.
- Adroddiadau HIA presennol a gynhaliwyd ar yr un pwnc/sector.
- Data technegol ac adroddiadau sydd eisoes wedi'u casglu mewn perthynas â'r penderfyniad.
- Adroddiadau gan y Llywodraeth neu sefydliadau sector.
- Papurau briffio.
- Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI).
- Tystiolaeth lafar a phapurau - drwy randdeiliaid allweddol.

Ar gyfer HIA mwy cynhwysfawr, gellid datblygu protocol adolygu llenyddiaeth gyda thermau chwilio allweddol a meini prawf ar gyfer cynnwys/hepgor i helpu i arwain y broses. Y meini prawf i'w hystyried yw blwyddyn gyhoeddi, iaith y cyhoeddiad, a blaenoriaethu tystiolaeth, er enghraifft a ddylai'r ffocws fod ar dystiolaeth o'r Deyrnas Unedig.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a nodwyd ac asesu'r addasrwydd a'r ansawdd, gellid defnyddio'r holl wybodaeth berthnasol i lenwi tabl echdynnu data i gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth am y ffynhonnell – teitl, awdur(on), dyddiad cyhoeddi, math o dystiolaeth.
- Grwpiau allweddol o'r boblogaeth a nodwyd.
- Canfyddiadau allweddol – effeithiau cadarnhaol/negyddol ar draws y penderfynyddion iechyd ehangach, gan gynnwys tystiolaeth o effeithiau.

## Dod â'r dystiolaeth ynghyd

Ar ôl casglu a chofnodi'r dystiolaeth, mae angen ei dehongli a'i defnyddio i lywio dadansoddiad HIA y corff cyhoeddus. Os defnyddir mwy nag un ffynhonnell dystiolaeth, byddai angen eu triogli a'u dehongli.

Gallai fod yn broses syml o adnabod themâu a thrafod y dystiolaeth neu, mewn HIA mwy cynhwysfawr, llunio 'tabl effaith'. Er enghraifft, ar ôl eu nodi, gallai fod yn ddefnyddiol categoreiddio'r effeithiau fel a ganlyn:

- **Maint/arwyddocâd yr effeithiau** – bach, cymedrol, mawr.
- **Tebygolrwydd/sicrwydd yr effeithiau** - posibl, tebygol, wedi'u cadarnhau.
- **Hyd yr effaith** – tymor byr, tymor canolig, tymor hir.
- Os oes angen, gellir eu rhannu ymhellach yn effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol.

Mae tabl effaith yn caniatáu creu naratif clir ar gyfer allbwn yr HIA er enghraifft, adroddiad neu ffeithlun (gweler Cam 4: Adrodd), a gall ddarparu canllaw ar gyfer blaenoriaethu'r effeithiau y dylid mynd i'r afael â nhw, a gellir datblygu argymhellion neu fesurau ohono.

Ar ôl i'r dadansoddiad gael ei gwblhau, mae angen nodi ac asesu mesurau mewn perthynas ag effeithiau'r penderfyniad a nodwyd. Y mesurau i'w nodi a'u hasesu yw'r rhai y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol (Ffigur 10). Gallant roi cyfle i 'lenwi' unrhyw fylchau a nodwyd yn y cynnig a mynd i'r afael eto ag unrhyw anghydraddoldebau iechyd (neu anghydraddoldebau eraill) a allai gael eu hachosi ganddo.

Pan fo corff cyhoeddus wedi cynnal HIA yn unol â'r Rheoliadau, rhaid iddo ystyried yr HIA wrth arfer y swyddogaethau hynny y cynhaliwyd yr HIA mewn cysylltiad â hwy a thrwy wneud hynny **rhaid gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy** (yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Rhan 6).

### Ffigur 10: Datblygu mesurau priodol i fynd i'r afael â'r canfyddiadau

Dylai'r mesurau fod:

- ✓ **Yn glir ac yn gryno**
- ✓ **Yn realistig**
- ✓ **Yn gyraeddadwy**
- ✓ **Yn hawdd i'w rheoli o ran nifer**
- ✓ **Yn ddiuedd**
- ✓ **Yn adlewyrchu'r holl dystiolaeth a barn cynrychiolwyr**
- ✓ **Wedi'u cytuno trwy gonsensws**
- ✓ **Yn gynaliadwy.**

#### Awgrymiadau allweddol:

- Cadwch mewn cof faint o wybodaeth, tystiolaeth a data sydd eu hangen ar gyfer maint yr HIA. Dylai dyfnder y dystiolaeth a gesglir fod yn gymesur ac yn briodol i'r math o HIA a'i gwmpas, ei raddfa a'i ddyfnder.
- Dilynwch y broses neu brotocol clir i sicrhau bod y broses yn systematig.
- Sicrhewch fod y wybodaeth a gesglir yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn gredadwy. Bydd sgiliau o ran gwerthuso tystiolaeth ymchwil ansoddol a meintiol yn feirniadol yn werthfawr.
- Meddyliwch am y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â'r cyd-destun dan sylw.
- Cadwch gofnod o'r dulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth, a'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir. Os yn bosibl, cynhwyswch ddolenni gwefannau i'r dystiolaeth fel bod modd ailedrych ar dystiolaeth yn gyfleus os bydd angen.

## Cam 4: Adrodd

**Prif bwrpas:** Cyflwyno canfyddiadau'r HIA.

**Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus 'gyhoeddi'r AEI mewn unrhyw fodd y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol'.**

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus wrth benderfynu sut i gyhoeddi HIA. Mae hyn yn golygu y gellid ei wneud mewn sawl fformat, fel adroddiad cryno neu ffeithlun, fideo neu animeiddiad. Dylai'r allbynnau gynnwys canfyddiadau'r asesiad ac unrhyw wybodaeth berthnasol.

**Argymhellir, ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, y dylid rhannu HIAs gydag ICC gyda'r bwriad o gynorthwyo Llywodraeth Cymru i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y Rheoliadau yn ymarferol.**

### Sut?

Dylid coladu a chyflwyno'r wybodaeth a gesglir yn y cam asesu mewn ffurf sy'n hygyrch i'r gynulleidfa darged. Dylai'r HIA fod yn hygyrch i'r cyhoedd o ran ei fformat a ble y caiff ei gyhoeddi.

Mae sawl fformat posibl yn amrywio o restr syml, ffeithlun, tabl o ganfyddiadau gweithdy, i adroddiad mwy cynhwysfawr gyda Chrynodeb Gweithredol neu Grynodedb Annhechnegol. Dylai fformat ac arddull yr allbwn ystyried y gynulleidfa darged/cynulleidfaedd targed a bod yn addas at y diben o ran hyd, iaith a'r defnydd o derminoleg.

Er enghraifft, os yw adroddiad HIA yn fanwl iawn gyda llawer o wybodaeth dechnegol, neu os yw'n arbennig o hir, yna gellid defnyddio Crynodeb Annhechnegol a rhestr o dermau i helpu i sicrhau ei fod yn ddarllenadwy. Dylid dosbarthu'r allbwn drafft i adolygwyr a/ neu gyfranogwyr y cytunwyd arnynt er mwyn ymgorffori sylwadau, ychwanegiadau a golygiadau a dod i gonsensws. Yna dylid rhannu'r allbwn terfynol â'r prif wneuthurwyr penderfyniadau ac unigolion a sefydliadau eraill y cytunwyd arnynt.

### Awgrymiadau allweddol:

#### Rhaid i'r HIA:

- fod ar gael i'r cyhoedd, bod yn hygyrch a bod ar gael ar gais.
- bod yn gymesur â natur y penderfyniad sy'n cael ei wneud a graddfa'r asesiad a gynhelir.
- cael ei gyhoeddi mewn lle a fformat sy'n ystyried y gynulleidfa/cynulleidfaedd arfaethedig.

## Cam 5: Adolygu a myfyrio gan gynnwys monitro a gwerthuso (dewisol)

**Prif bwrpas:** Gwerthuso sut y defnyddiwyd yr HIA, ei ddefnyddioldeb a'i effaith, megis a ddylanwadodd ar y penderfyniad a wnaed a'r datblygiadau. Bydd hyn yn helpu i asesu pa mor effeithiol fu'r broses HIA o ran dylanwadu ar benderfyniadau ac a yw'r corff cyhoeddus yn ystyried y dylai wneud unrhyw beth yn wahanol yn y dyfodol.

### Sut?

Mae dwy elfen i'r cam hwn o'r broses; y cyntaf yw i'r rhai sy'n cynnal yr HIA fyfyrrio ar yr HIA ac unrhyw beth a ddysgwyd (os ydynt yn dewis gwneud hynny). Gall hyn ychwanegu at y broses, cofnodi unrhyw effaith a welwyd hyd yma ac amlygu unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer HIAs yn y dyfodol.

Yr elfen arall yw asesu 'defnyddioldeb' yr HIA i'r gynulleidfa darged/cynulleidfaoedd targed ac a ddylanwadodd ar y broses o wneud penderfyniadau a'r camau a gymerwyd. Un ffordd o asesu hyn yw olrhain sut y defnyddiwyd yr HIA a chan bwy drwy fonitro gohebiaeth, ymatebion, ceisiadau am wybodaeth neu gyflwyniadau ac ymatebion.

Gan mai nod HIA yw llywio'r broses o wneud penderfyniadau, efallai y bydd sefydliadau am ddatblygu eu ffurflenni a'u systemau monitro eu hunain i hwyluso effeithiolrwydd eu HIAs ar ôl i benderfyniad perthnasol gael ei wneud. Gall adrodd hefyd roi cyfle i fyfyrrio ar yr HIA, yr amser a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, yr hyn a weithiodd yn dda, a sut y cafodd unrhyw anawsterau eu goresgyn. Mae dogfennau o'r math yma yn ffynhonnell ddysgu gyfoethog, yn tynnu sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol o'r gwaith a gellir eu rhannu ar gyfer datblygu pobl ac ymarfer yn y dyfodol.

### Awgrymiadau allweddol:

- Cynhwyswch gynlluniau ar gyfer monitro o fewn yr HIA (os ydynt yn hysbys). Manylwch ar ba elfennau o'r HIA fydd yn cael eu monitro (penderfyniadau iechyd, a/neu grŵp(iau) poblogaeth a/neu ganlyniadau neu broses gwneud penderfyniadau).
- Meddyliwch am ffyrdd o asesu effaith yr HIA (ei ddefnyddioldeb i'r gynulleidfa darged) neu sut y cynhaliwyd yr HIA a pha wybodaeth y mae gan y corff cyhoeddus fynediad ati - er enghraifft monitro gohebiaeth a/neu ymgysylltiad â safleoedd ar-lein lle mae'r adroddiad HIA yn cael ei gyhoeddi/hyrwyddo (gwefannau/cyfringau cymdeithasol).

## Sicrhau Ansawdd (dewisol)

---

Mae proses sicrhau ansawdd/adolygiad beirniadol o adroddiad HIA yn bwysig er mwyn galluogi ymddiriedaeth a hyder yn y broses HIA a gynhaliwyd ac yn y canfyddiadau. Mae'r egwyddorion sy'n sail i fethodoleg HIA yn hanfodol i uniondeb ymarfer HIA a phroses a threfniadau llywodraethu HIA.

Bydd HIAs o ansawdd gwael yn effeithio ar hyder y comisiynwyr, unrhyw randdeiliaid cysylltiedig, a'r grwpiau o'r boblogaeth yr effeithir arnynt. Mae'n debyg y bydd llai o hyder yn arwain at lai o gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Dyma enghreifftiau o ble y byddai'n ddefnyddiol cynnal proses sicrhau ansawdd:

- Prosesau llywodraethu ac adolygu mewnol y sefydliad cyn cyhoeddi'r HIA.
- Gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er enghraifft swyddogion cynllunio/llunwyr polisiâu, y mae angen iddynt fod yn hyderus yn y canfyddiadau er mwyn llywio eu hargymhellion o ran derbyn HIA.
- Comisiynwyr HIA y mae'n rhaid iddynt wirio bod yr HIA wedi bodloni gofynion sylfaenol y Rheoliadau ac yn rhoi hyder iddynt yn y canfyddiadau.
- Ymarferwyr HIA sydd eisiau cynnal adolygiad gan gymheiriaid o HIA.
- Aelodau'r gymuned sydd eisiau asesiad annibynnol o ganfyddiadau a dulliau HIA.
- Addysgwyr y mae angen meini prawf arnynt i seilio casgliadau am HIAs arnynt.

Mae canllawiau ar gael i gynorthwyo gyda chynnal proses sicrhau ansawdd a gellir eu haddasu i fod yn gymesur ag amgylchiadau, teipoleg a ffurf yr HIA. (Green, Parry-Williams ac Edmonds, 2017). Gall UGAEIC hefyd ddarparu hyfforddiant a chynngor ar sicrhau ansawdd.

## D: Ystyriaethau ychwanegol i gyrff cyhoeddus

### Aseiad Effaith Integredig (IIA)

Fel arfer, mae'n well cynnal HIA fel aseiad annibynnol, gan ddefnyddio methodoleg, offer, fframweithiau a mathau o HIA a gydnabyddir yn gyffredinol fel yr amlinellir yn y canllaw hwn. Fodd bynnag, gellir cynnal HIA o fewn gweithdrefnau a phrosesau presennol sefydliadau ar yr amod bod gofynion y Rheoliadau yn cael eu bodloni (fel yr amlinellir yn Rhan C: Y Broses HIA ar gyfer y Rheoliadau). Er enghraifft, caiff **Aseidiadau Effaith Integredig (IIA)** eu defnyddio'n aml gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill.

**Cyfrifoldeb y corff cyhoeddus fyddai penderfynu a fyddai defnyddio IIA yn bodloni'r holl ofynion perthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r gofynion ar gyfer HIAs a bennir yn y Rheoliadau.**

### Diffyg cydymffurfio ac adolygiad barnwrol

Gall corff cyhoeddus fod yn destun her gyfreithiol os nad yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau. Er enghraifft, os yw unigolyn neu grŵp y mae ei fuddiannau'n cael eu heffeithio'n andwyol gan benderfyniad corff cyhoeddus, yn ystyried na chydymffurfiwyd â'r Rheoliadau, gall fod yn bosibl (yn amodol ar y rheolau a'r weithdrefn berthnasol) iddynt geisio cychwyn adolygiad barnwrol.

### Trefniadau llywodraethu a gwrthdaro buddiannau

Dylid datgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau gan gyfranogwyr sy'n cynnal HIA yn unol â gweithdrefnau llywodraethu'r sefydliad.

### Gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill

Mewn amgylchiadau lle mae corff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff nad ydynt o fewn cwmpas y Rheoliadau, byddai'r Rheoliadau yn dal i fod yn berthnasol i'r corff sydd o fewn y cwmpas.

Er enghraifft, mae cynlluniau llesiant lleol yn cael eu datblygu a'u perchnogi gan amrywiaeth o bartneriaid. Rhaid i'r chyrrff cyhoeddus hynny sy'n dod o dan y Rheoliadau sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldeb yn unol â gofynion y Rheoliadau lle mae'r cynllun llesiant lleol yn benderfyniad sy'n cael ei gwmpasu gan y Rheoliadau.

Fodd bynnag, er mai dim ond y chyrrff cyhoeddus hynny sy'n cael eu cwmpasu gan y Rheoliadau fydd â dyletswydd statudol i gynnal HIA o dan yr amgylchiadau a ragnodir gan y Rheoliadau, byddai Llywodraeth Cymru yn annog pob corff cyhoeddus arall i ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi gyda'u prosesau gwneud penderfyniadau.

Er y bydd y gofynion yn y Rheoliadau yn berthnasol i bob corff cyhoeddus perthnasol yn unigol, efallai y bydd yn ymarferol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau a chyn belled â bod gofynion y Rheoliadau yn cael eu dilyn, i gynnal un HIA pan fydd sefydliadau'n gweithio mewn partneriaeth.

## Geirfa

<b>Anghydraddoldebau iechyd</b>	Y gwahaniaethau systematig yn statws iechyd a llesiant gwahanol grwpiau (McCartney <i>et al.</i> , 2019).
<b>Annhegwch iechyd</b>	Gwahaniaethau mewn statws iechyd sy'n ddiangen, y gellir eu hosgoi, ac sy'n annheg ac yn anghyfiawn (The Kings Fund, 2025).
<b>Ansoddol</b>	Yn ymwneud â natur neu safon rhywbeth, yn hytrach na'i faint.
<b>Asesiad Effaith Integredig (IIA)</b>	Offeryn a ddefnyddir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus i asesu effaith eu penderfyniadau a'u polisiau ar grwpiau cydraddoldeb, yr amgylchedd, yr economi, a meysydd eraill o ddiddordeb (Archwilio Cymru, 2022).
<b>Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)</b>	Offeryn a ddefnyddir i asesu effeithiau sylweddol prosiect neu gynnig datblygu ar yr amgylchedd.
<b>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)</b>	Offeryn sy'n helpu i sicrhau bod penderfyniadau, arferion a pholisiau o fewn sefydliadau yn deg ac nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp gwarchoddedig.
<b>Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)</b>	Wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau fel: Asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr a'r tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl holl bobl Cymru, neu rai ohonynt.
<b>Atal afiechyd</b>	Atal yw unrhyw gam sy'n cadw pobl yn iach ac yn atal neu'n osgoi risg o afiechyd neu farwolaeth (The Kings Fund, 2025).
<b>Cyfleoedd iechyd</b>	Wedi'u diffinio yn y Rheoliadau fel: Mynediad at gyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd y mae'r corff cyhoeddus sy'n cynnal yr HIA yn ystyried yn rhesymol eu bod yn hybu neu'n gwella iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu y bwriedir iddynt wneud hynny.
<b>Cyfranogol</b>	Wedi'i nodweddu gan neu'n cynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol.
<b>Data a thystiolaeth eilaidd</b>	Data neu dystiolaeth sy'n cael eu casglu gan rywun heblaw 'r prif ddefnyddiwr.
<b>Data a thystiolaeth cynradd</b>	Data neu dystiolaeth sy'n cael eu casglu yn uniongyrchol o ffynhonnell wreiddiol.

<b>Datblygiad Cynaliadwy</b>	Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng twf economaidd, diogelu'r amgylchedd, a llesiant cymdeithasol i sicrhau iechyd a ffyniant hirdymor i bobl ac i'r blaned.
<b>Egwyddor datblygu cynaliadwy</b>	<p>O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys y pum ffordd o weithio: cydweithio, integreiddio, cynnwys, hirdymor ac atal. (Llywodraeth Cymru, 2015)</p>
<b>Ffactorau annhegwch iechyd</b>	Wedi'u diffinio yn y Rheoliadau fel: Unrhyw wahaniaethau o ran canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd y gellir eu hesbonio'n rhesymol, neu y gallant fod wedi eu hachosi'n rhesymol, gan unrhyw sail, gan gynnwys statws economaidd-gymdeithasol, lleoliad daearyddol, a phresenoldeb nodwedd warchoddedig o fewn ystyr "protected characteristic" ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
<b>Grŵp poblogaeth</b>	Mae grŵp poblogaeth yn cyfeirio at grŵp o unigolion sydd wedi'u huno gan ffactor cyffredin, er enghraifft lleoliad daearyddol, ethnigrwydd, afiechyd, oedran neu ryw.
<b>Iechyd ym Mhob Polisi (HiAP)</b>	Dull o lunio polisiâu sy'n ystyried goblygiadau iechyd penderfyniadau ar draws sectorau yn systematig, gan geisio synergeddau ac osgoi effeithiau iechyd niweidiol polisiâu y tu allan i'r sector iechyd er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a thegwch iechyd (PAHO, 2023).
<b>Llenyddiaeth lwyd</b>	Llenyddiaeth a gynhyrchir y tu allan i systemau cyhoeddi masnachol neu'r byd academiaidd.
<b>Meintiol</b>	Wedi'i fesur ar sail maint rhywbeth.
<b>Penderfynyddion iechyd ehangach</b>	Wedi'u diffinio yn y Rheoliadau fel: Y ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n gallu effeithio ar iechyd pobl.
<b>Rhanddeiliad</b>	Rhanddeiliaid yw'r rhai sy'n ymwneud â datblygu'r cynnig a'r rhai y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt.
<b>Triongli</b>	Dod â data meintiol a/neu ansoddol ynghyd, i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o bwnc.

## Cyfeiriadau

- Archwilio Cymru, 2022. *Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?* Ar-lein: <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/asesiadau-or-effaith-ar-gydraddoldeb-mwy-nag-ymarfer-blwch-ticio> (fel ar 24.11.24).
- Canolfan Polisi Iechyd Ewrop, 1999. *Health Impact Assessment. Main concepts and suggested approach. Gothenburg Consensus Paper.* Ar-lein: <https://hiap.goeg.at/sites/hiap.goeg.at/files/2019-10/Gothenburg%20Consensus%20Paper.pdf> (fel ar 24.11.25).
- Dahlgren, G., Whitehead, M., 2021. The Dahlgren-Whitehead model of health determinants: 30 years on and still chasing rainbows. *Public Health* 199, 20–24. <https://doi.org/10.1016/j.puhe.2021.08.009>
- Edmonds, N., Parry-Williams, L., Green, L., 2019. *WHIASU Training and Capacity Building Framework for HIA in Wales.* Ar-lein: [https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/02/WHIASU\\_Training\\_and\\_Capacity\\_Building\\_Framework\\_for\\_HIA\\_in\\_Wales\\_2019-2024\\_FINAL\\_TECHNICAL\\_DOCUMENT.pdf](https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/02/WHIASU_Training_and_Capacity_Building_Framework_for_HIA_in_Wales_2019-2024_FINAL_TECHNICAL_DOCUMENT.pdf) (fel ar 24.11.25).
- Green, L., Parry-Williams, L., Edmonds, N., 2017. *Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd Asesu'r Effaith ar Iechyd.* Ar-lein: [https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/07/Welsh\\_QA\\_interactive.pdf](https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/07/Welsh_QA_interactive.pdf) (fel ar 24.11.25).
- International Association for Impact Assessment, 2014. *Health Impact Assessment.* Ar-lein: [https://unece.org/sites/default/files/datastore/fileadmin/DAM/env/eia/documents/WG2.4\\_may2015/Fastips\\_8\\_Health.pdf](https://unece.org/sites/default/files/datastore/fileadmin/DAM/env/eia/documents/WG2.4_may2015/Fastips_8_Health.pdf) (fel ar 24.11.25).
- Llywodraeth Cymru, 2015. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh> (fel ar 24.11.25).
- Llywodraeth Cymru, 2017. *Deddf Iechyd y Cyhoeddus (Cymru) 2017.* Ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh> (fel ar 24.11.25).
- Llywodraeth Cymru, 2021. *Cymru Fwy Cyfartal: Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol* Ar-lein: <https://www.llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol> (fel ar 24.11.25).
- Llywodraeth Cymru, 2021a. *Strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol 2025 i 2035 | LLYW.CYMRU* Ar-lein: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-04/strategaeth-iechyd-meddwl-a-llesiant-meddyliol-2025-2035.pdf> (fel ar 24.11.25).
- Llywodraeth Cymru, 2025b. *Myfyrio ar ein Hiechyd - Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Iechyd Cymru 2024—2025.* Ar-lein: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-12/adroddiad-bylynddol-prif-swyddog-meddygol-2024-2025-4556346.pdf> (fel ar 24.11.25).
- Llywodraeth Cymru, 2025c. *Rheoliadau Asesiadau'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025.* Ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2025/1215/made/welsh> (fel ar 07.01.26).

- Llywodraeth y DU, 2010. *Deddf Cydraddoldeb 2010*. Ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4> (fel ar 24.11.25).
- McCartney, G., Popham, F., McMaster, R., Cumbers, A., 2019. Defining health and health inequalities. *Public Health, Special issue on Migration, Ethnicity, Race and Health* 172, 22–30. <https://doi.org/10.1016/j.puhe.2019.03.023>
- PAHO, 2023. *Health in All Policies - PAHO/WHO | Pan American Health Organization*. Ar-lein: <https://www.paho.org/en/topics/health-all-policies> (fel ar 24.11.25).
- Sefydliad Iechyd y Byd, 2024. *Health equity*. Ar-lein: [https://www.who.int/health-topics/health-equity#tab=tab\\_1](https://www.who.int/health-topics/health-equity#tab=tab_1) (fel ar 24.11.25).
- Sefydliad Iechyd y Byd, 2017. *Determinants of health*. Ar-lein: <https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/determinants-of-health> (fel ar 24.11.25).
- Sefydliad Iechyd y Byd, 1948 *Constitution of the World Health Organization*. Ar-lein: <https://www.who.int/about>
- Sefydliad Robert Wood Johnson, 2022. *Visualizing Health Equity: One Size Does Not Fit All Infographic*. Ar-lein: <https://www.rwjf.org/content/rwjf-web/us/en/insights/our-research/infographics/visualizing-health-equity.html> (fel ar 24.11.25).
- The Health Foundation, 2023. *Health Equals | Building blocks. Health Equals*. Ar-lein: <https://healthequals.org.uk/building-blocks/> (fel ar 24.11.25).
- The King's Fund, 2025. 'What are Health Inequalities'. Ar-lein: <https://www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/long-reads/what-are-health-inequalities> (fel ar 24.11.25).
- Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, 2012. *Asesu'r Effaith ar Iechyd. Canllaw Ymarferol*. Ar-lein: <https://icccgsib.co.uk/adnoddau/canllaw-ymarferol-i-hia/> (fel ar 24.11.25).
- Y Cenhedloedd Unedig, 2020. *United Nations Sustainable Development Goals*. Ar-lein: <https://www.un.org/sustainabledevelopment/> (fel ar 24.11.25).

## Atodiad 1: Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru y mae'r Rheoliadau'n berthnasol iddynt

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau lleol
  - Cyngor Bro Morgannwg
  - Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
  - Cyngor Caerdydd
  - Cyngor Dinas a Sir Abertawe
  - Cyngor Dinas Casnewydd
  - Cyngor Gwynedd
  - Cyngor Sir Caerfyrddin
  - Cyngor Sir Ceredigion
  - Cyngor Sir Ddinbych
  - Cyngor Sir Fynwy
  - Cyngor Sir Penfro
  - Cyngor Sir Powys
  - Cyngor Sir y Fflint
  - Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyd-bwyllgorau corfforedig:
  - Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru
  - Cydbwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru
  - Cydbwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
  - Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.
- Byrddau Iechyd Lleol:
  - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaethau'r GIG:
  - Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
  - Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
  - Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Awdurdodau Iechyd Arbennig:
  - Addysg a Gwellu Iechyd Cymru
  - Iechyd a Gofal Digidol Cymru

- Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru:
  - Bannau Brycheiniog
  - Arfordir Penfro
  - Eryri
- Awdurdodau Tân ac Achub Cymru:
  - Gogledd Cymru
  - Canolbarth a Gorrlewin Cymru
  - De Cymru
- Canolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cyfyngedig;
- Cymwysterau Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru;
- Gofal Cymdeithasol Cymru;
- Awdurdod Cyllid Cymru;
- Trafnidiaeth i Gymru.

## Atodiad 2: Gwybodaeth bellach am HIAs Cyflym (Safonol) a Chynhwysfawr, gan gynnwys adnoddau defnyddiol

Mae'r tabl hwn yn rhoi amlinelliad defnyddiol o HIA Cyflym (Safonol) a HIA Cynhwysfawr gan gynnwys camau enghreifftiol ar gyfer pob un a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd, a rhai dolenni i adnoddau defnyddiol. Mae'n bwysig nodi mai canllaw yn unig yw hwn a gall fod yn hyblyg yn dibynnu ar y cynnig sy'n cael ei asesu, y cyd-destun a'r adnoddau. Mae'r camau sgrinio a chwmpasu yn debyg iawn ar gyfer HIA Cyflym a HIA Cynhwysfawr. Y cam asesu tystiolaeth yw lle mae'r mathau enghreifftiol o HIA yn y canllaw hwn yn wahanol o ran eu dull gweithredu.

### Cyflym (HIA 'safonol')

Y math hwn o HIA yw'r math o HIA a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin. Gall gymryd dyddiau neu wythnosau a gall olygu sefydlu grŵp llywio bach. Mae'r camau a gymerir yn gymesur â'r amgylchiadau a'r amser sydd ar gael. **Argymhellir cyfranogiad gan randdeiliaid ond nid yw hynny'n orfodol.**

Senarios	Camau'r broses HIA a chamau gweithredu	Adnoddau ac offer defnyddiol
<p>Gall y math hwn o HIA fod yn ddefnyddiol os yw amserlenni'n dynn oherwydd llinellau amser ymgynghori neu wneud penderfyniadau.</p> <p>Mae hefyd yn darparu tystiolaeth i wneuthurwyr penderfyniadau neu weithdrefnau llywodraethu bod canlyniadau iechyd a llesiant wedi'u hystyried.</p>	<p><b>Cam 1: Sgrinio:</b> A yw hwn yn benderfyniad o natur strategol sy'n dod o dan y Rheoliadau? Os ydyw, ewch ymlaen i Gam 2. Os nad yw, gallwch fwrw ymlaen â HIA Gwirfoddol os dymunwch.</p> <p><b>Cam 2: Cwmpasu:</b> Cwmpasu'r HIA gan ddefnyddio'r Templed Cwmpasu.</p> <p><b>Cam 3: Gwerthuso Tystiolaeth (Asesiad):</b> Casglu a chyfuno pob math o dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth a data sy'n bodoli eisoes. Gall hyn gynnwys adolygiad llenyddiaeth byr o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, trosolwg byr o'r cyd-destun polisi, proffil o'r boblogaeth/cymuned sy'n cynnwys gwybodaeth a data am iechyd (sydd fel arfer eisoes yn bodoli) i fod yn sail i werthusiad o unrhyw effeithiau. Argymhellir gweithdy cyfranogol neu ddull ymgysylltu arall i gael gwybodaeth gan randdeiliaid ac i glywed eu profiadau.</p> <p><b>Cam 4: Adrodd:</b> Cyhoeddi'r HIA yn y modd y mae'r corff cyhoeddus yn ei ystyried yn briodol.</p> <p><b>Cam 5: Adolygu a myfyrio (dewisol):</b> Cynnal adolygiad a myfyrdod gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r HIA a monitro a gwerthuso'r effaith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Templed Cwmpasu HIA (<a href="#">Atodiad 3</a>)</li> <li>• Adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Iechyd a Llesiant Ehangach (<a href="#">Atodiad 4</a>)</li> <li>• Agenda gweithdy HIA (<a href="#">Atodiad 5</a>)</li> <li>• Templed cofnodi gweithdy HIA (<a href="#">Atodiad 6</a>)</li> <li>• Enghraifft o astudiaeth achos cyflym: <a href="https://icccgsib.co.uk/adnoddau/dan-sylw-iechyd-llesiant-a-thegwch-gan-ddefnyddio-asesur-effaith-ar-iechyd-astudiaethau-achos-o-gyrff-cyhoeddus-yng-nghymru/">https://icccgsib.co.uk/adnoddau/dan-sylw-iechyd-llesiant-a-thegwch-gan-ddefnyddio-asesur-effaith-ar-iechyd-astudiaethau-achos-o-gyrff-cyhoeddus-yng-nghymru/</a></li> </ul>

## Cynhwysfawr

Gall y math hwn o HIA gymryd mwy o amser i'w gwblhau. Gall fod angen llawer o adnoddau ond dylai'r HIA bob amser fod yn gymesur â'r amgylchiadau a'r amser sydd ar gael. Weithiau gellir ei gynnal drwy ymgynghorwyr arbenigol. Gellir integreiddio'r math hwn o HIA i brosesau asesu effaith eraill, er enghraifft, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA). Fel arfer maent yn gofyn am broses fwy cynhwysfawr o gasglu data a thystiolaeth gan gynnwys y cyd-destun polisi a thystiolaeth ehangach a geir drwy chwiliadau llenyddiaeth, casglu data meintiol neu ansoddol cynradd drwy gyfweiliadau neu weithdai a deallusrwydd iechyd ac ystadegau demograffig ac iddynt fwy o ffocws. Mewn HIA cynhwysfawr, mae'n fwy tebygol y bydd adroddiad llawn yn cael ei baratoi ar gyfer pob cam o'r broses ac y bydd grŵp llywio neu grŵp cynghori o arbenigwyr yn craffu arno wrth i'r HIA fynd rhagddo. **Argymhellir cyfranogiad gan randdeiliaid ond nid yw hynny'n orfodol.**

Senarios	Camau'r broses HIA a chamau gweithredu	Adnoddau ac offer defnyddiol
Mae'r math hwn o HIA yn fanylach er mwyn llywio penderfyniadau a chamau gweithredu a all fod yn hynod bwysig ac eang eu cwmpas i'r boblogaeth.	<p><b>Cam 1: Sgrinio:</b> A yw hwn yn benderfyniad o natur strategol sy'n dod o dan y Rheoliadau? Os ydyw, ewch ymlaen i Gam 2. Os nad yw, gallwch fwrw ymlaen â HIA Gwirfoddol os dymunwch.</p> <p><b>Cam 2: Cwmpasu:</b> Cwmpasu'r HIA gan ddefnyddio'r Templed Cwmpasu. Sefydlu Grŵp llywio a chynghori i oruchwylio'r broses drwy gydol yr HIA. Dylai'r grŵp cynghori fod yn annibynnol ar y rhai sy'n cynnal yr HIA. Cynhyrchir adroddiadau ar gyfer pob cam o'r broses HIA ac yna bydd y grŵp cynghori yn eu hadolygu ac yn gwneud sylwadau arnynt.</p> <p><b>Cam 3: Gwerthuso Tystiolaeth (Asesiad):</b> Casglu a chyfuno pob math o dystiolaeth, gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, trosolwg o gyd-destun y polisi, proffil y boblogaeth/cymuned sy'n cynnwys gwybodaeth a data iechyd i lywio'r ystyriaeth o effeithiau. Argymhellir gweithdy cyfranogol neu ddull ymgysylltu arall i gael gwybodaeth gan randdeiliaid ac i glywed eu profiadau. Mae'r holl dystiolaeth yn cael ei chasglu mewn tabl effaith sy'n cynnwys categorieiddio tystiolaeth.</p> <p><b>Cam 4: Adrodd:</b> Cyhoeddi'r HIA yn y modd y mae'r corff cyhoeddus yn ei ystyried yn briodol.</p> <p><b>Cam 5: Adolygu a myfyrio (dewisol):</b> Cynnal adolygiad a myfyrdod gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r HIA a monitro a gwerthuso'r effaith. Dylai'r adroddiad HIA hefyd fod yn destun proses sicrhau ansawdd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Templed Cwmpasu HIA (<a href="#">Atodiad 3</a>)</li> <li>• Adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Iechyd a Llesiant Ehangach (<a href="#">Atodiad 4</a>)</li> <li>• Agenda gweithdy HIA (<a href="#">Atodiad 5</a>)</li> <li>• Templed cofnodi gweithdy HIA (<a href="#">Atodiad 6</a>)</li> <li>• Enghraifft o astudiaeth achos cynhwysfawr: <a href="https://icccgsib.co.uk/adnoddau/dan-sylw-iechyd-llesiant-a-thegwch-gan-ddefnyddio-asesur-effaith-ar-iechyd-astudiaethau-achos-o-gyrff-cyhoeddus-yng-nghymru/">https://icccgsib.co.uk/adnoddau/dan-sylw-iechyd-llesiant-a-thegwch-gan-ddefnyddio-asesur-effaith-ar-iechyd-astudiaethau-achos-o-gyrff-cyhoeddus-yng-nghymru/</a></li> </ul>

# Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Tabled cwmpasu

*Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod cam Cwmpasu'r broses HIA. Darperir nodiadau canllaw ar ddiwedd yr adnodd hwn i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r cam hwn. Yn ddelfrydol, dylai mwy nag un unigolyn gwblhau'r cam cwmpasu.*

*Mae'r cam cwmpasu'n pennu elfennau rheoli prosiect, llywodraethu, proses, amcanion, ffocws a maint yr HIA. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r gwerthoedd a'r egwyddorion allweddol sy'n ategu gweithrediad yr HIA gan gynnwys tryloywder, cyfranogiad a gwydnwch.*

**Dyddiad:**

---

**Cynhaliwyd gan:**

---

**Teitl a disgrifiad byr o'r polisi, rhaglen, prosiect fydd yn cael ei arfarnu:**

**Beth yw ffiniau daearyddol y prosiect?**

**Beth yw'r amserlenni? (A phryd y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau hollbwysig?)**

**A ddylech sefydlu Grŵp Llywio a phwy ddylai fod yn rhan ohono?**

**A ddylai'r HIA fod yn ymarfer mewnol neu a ddylid comisiynu rhywun?**

**Pa adnoddau ariannol ac adnoddau dynol sydd eu hangen/ar gael?**

**Beth yw rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan?**

**Pa fath o HIA sy'n angenrheidiol a/neu'n bosibl yn yr amser sydd ar gael – cyfranogol cyflym neu gynhwysfawr?**

**Pa fath o dystiolaeth fydd yn darparu'r dull adnabod gorau ar gyfer yr effaith bosibl ar y penderfyniadau yn y cam cwmpasu ac ar ba grwpiau o'r boblogaeth? Pa ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r dystiolaeth?**

**Pa randdeiliaid y mae angen iddynt gymryd rhan yn y broses?**

**A oes trefniadau sicrwydd ansawdd ar waith? Pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i gynnal yr asesiad sicrwydd ansawdd (mewnol neu allanol)?**

**Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu'r broses HIA, myfyrio arni a monitro ei dylanwad a'i chanlyniadau?**

*Darperir y templed hwn fel cymorth ac arweiniad yn unig. Mae'r holl gynnwys a roddir a'r penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio'r templed yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r sefydliad perthnasol ac nid Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

# Nodiadau Canllaw

## Ffiniau daearyddol

Mae'n bwysig cytuno ar ffiniau daearyddol yr HIA. Mae'n bosibl y bydd effeithiau ar boblogaethau y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig felly mae'n bwysig gwneud penderfyniad ynghylch lle y byddwch yn pennu unrhyw ffiniau a'r rhesymau dros hyn. Dylech ystyried unrhyw effaith gynyddol bosibl bob tro ac a yw'n berthnasol yn yr asesiad penodol.

## Amserlenni

Mae'n hanfodol pennu'r amserlenni gwneud penderfyniadau ar gyfer y cynnig i sicrhau y bydd cyfle i'r HIA ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

## Grŵp Llywio

Gall grŵp llywio ddarparu ffordd effeithiol o ddsbarthu tasgau. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect. Gallai mwy na 12 o bobl fod yn anhyllaw. Dylech sicrhau fod gennych gynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn yn helpu i hybu cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni. Dylech hefyd geisio sicrhau cymysgedd o sgiliau. Gan ddibynnu ar y math o gynnis a'i gymhlethdod, gallai'r sgiliau hyn gynnwys ymrwymiad a datblygiad cymunedau, ymchwil, rheoli prosiectau a dadansoddi polisi.

Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cynnwys pobl â gwybodaeth benodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys iechyd cyhoeddus, ond gallai gynnwys gwybodaeth arbenigol yn y gwyddorau cymdeithasol, epidemioleg, iechyd amgylcheddol neu economïau iechyd hefyd. Dylech gofio hefyd fod gan gynrychiolwyr cymunedol fewnwelediadau penodol ynghylch sut y bydd cynigion yn effeithio ar bobl leol.

Mae amseriad pryd y byddwch yn penderfynu sefydlu grŵp llywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dylech benderfynu ynghylch sefydlu grŵp llywio rhagarweiniol ar ddiwedd y cam sgrinio.

## Cymorth mewnol/wedi'i gomisiynu/ychwanegol

Os bydd yr HIA yn datblygu fel agwedd arferol ar wneud penderfyniadau yna ni ddylai fod angen adnoddau ychwanegol a gellir ei feithrin mewn modd sy'n effeithiol ac effeithlon o ran amser drwy gydweithio. Fodd bynnag, ar gyfer rhai HIAs, mae'n bosibl y bydd angen asesiad dyfnach neu elfen adolygu llenyddiaeth ehangach neu efallai y bydd angen i chi gasglu data lleol newydd. Lle y bydd hyn yn angenrheidiol, efallai y byddwch yn dymuno penodi rhywun i ymgymryd â rhai o'r tasgau dan sylw. Ond bydd cost ynghlwm â hyn. Mae penodi rhywun y tu allan i'r sefydliad yn un opsiwn.

## Adnoddau

Cadarnhewch pa adnoddau sydd ar gael h.y. cyllid ychwanegol a/neu amser pobl. Bydd angen i chi ddatblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i chi. .

### Rolau a chyfrifoldebau

Bydd amrywiaeth o dasgau i'w gwneud, a dylid cytuno ar y rhain ar y cam hwn. Gall y rhain gynnwys:

- Arwain yr HIA
- Casglu tystiolaeth a'i harfarnu
- Cadeirio cyfarfodydd
- Tasgau gweinyddol/logistaidd h.y. archebu lleoliadau/gwahoddiadau
- Ysgrifennu adroddiadau
- Dosbarthu'r canfyddiadau
- Monitro a gwerthuso

Bydd angen cytuno ar unrhyw rolau cyffredinol yn y grŵp llywio hefyd fel bod yr aelodau'n glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd aelodau'r grŵp llywio eu hunain yn gyfrifol am ddarparu mynediad i fathau penodol o wybodaeth neu dystiolaeth, neu gefnogi cael mynediad at grwpiau penodol o bobl fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth dechnegol neu ansoddol. Mae disgwyl iddynt adolygu unrhyw fersiynau drafft o'r adroddiad neu'r gyfres o argymhellion terfynol hefyd.

### Proses yr HIA

Mae'n bwysig bod yn agored a thryloyw ac arddangos yn llawn yr hyn sydd wedi'i gynllunio/cyflawni/ystyried, neu beidio, a pham.

Bydd dyfnder eich asesiad yn dibynnu ar yr amserlenni, yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y prosiect. Gall asesiadau cyflym gynnwys un cyfarfod â rhanddeiliaid ac adroddiad. Gall asesiadau mwy cynhwysfawr gymryd misoedd i'w cwblhau a gallant gynnwys adolygiadau systematig o lenyddiaeth, casglu data newydd a dadansoddiadau arbenigol.


### Y rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid yw'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig neu sydd â budd ynddo. Mae ymrwymiad y rhanddeiliaid a'r gymuned yn bwysig i'w galluogi i gyfrannu eu gwybodaeth a'u mewnwelediad fel rhan o'r arfarniad h.y. tystiolaeth ar sail eu profiadau neu wybodaeth. Gallai cynnal dadansoddiad mapio rhanddeiliaid fod yn ddefnyddiol.

Ni ddylid camgymryd rhanddeiliaid am aelodau posibl o'r grŵp llywio a fyddai'n rhan o'r gwaith o oruchwylio neu ymgymryd â thasgau penodol o fewn yr HIA. Gallant fod yn gynrychiolwyr o'r un sefydliad ond byddai'r disgwyliadau a'r ymrwymiad yn wahanol rhwng rhanddeiliad ac aelod o'r grŵp llywio.

### Dulliau i asesu effeithiau a chasglu tystiolaeth

Mae'r HIA yn defnyddio tair elfen o dystiolaeth:



Gan ddibynnu ar natur y cynnig a'r adnoddau a'r amser sydd ar gael, dylai fod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o'r dulliau y dymunwch eu defnyddio i asesu'r effeithiau posibl. Bydd yr asesiad yn cael ei hysbysu gan ddata'r boblogaeth leol ac adolygiad o lenyddiaeth/tystiolaeth (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol lle y bo'n briodol). Ategir hyn gyda thystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid. Gellir cael gafael ar hyn drwy, er enghraifft, gyfarfodydd â rhanddeiliaid, cyfweiliadau ag arbenigwyr allweddol, grwpiau ffocws neu arolygon.

Wrth sicrhau / adolygu ansawdd HIA, bydd angen ystyried ehangder a chryfder y dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys pa mor briodol yw'r dulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth h.y. sut y cesglir tystiolaeth gan randdeiliaid. Dylai'r cam cwmpasu amlygu hyn.

### Sicrhau Ansawdd

Gan ddibynnu ar gyd-destun a natur yr HIA, gellir cynnal y broses sicrhau ansawdd yn fewnol gan y prif sefydliad neu gall rhanddeiliaid annibynnol ei chynnal. Gall y cam cwmpasu ddarparu manylion ynghylch natur a phroses y dull sicrhau ansawdd os yw'n briodol. Mae 'Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA' (UGAEIC, 2017) ar gael yma: <https://icccgsib.co.uk/whiasu/adnoddau/>

### Adolygu, myfyrio a monitro

Dylid cynnal adolygiad o HIA a/neu ei fonitro'n rheolaidd. Gall hyn wella'r hyn a ddysgir o'r broses i hysbysu ymarfer yn y dyfodol (proses werthuso); a/neu hysbysu comisiynwyr neu randdeiliaid ynghylch dylanwad yr HIA (gwerthuso'r effaith); neu fonitro sut y mae'r HIA wedi cael effaith (os o gwbl) ar ganlyniadau iechyd a llesiant fel y rhagwelwyd, mewn perthynas â'r penderfynyddion neu'r poblogaethau a nodwyd yn yr HIA fel y rheini yr effeithir arnynt yn benodol (gwerthuso'r canlyniad).

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant

*Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod camau Sgrinio ac Arfarnu Tystiolaeth HIA er mwyn nodi'r penderfynyddion ehangach, a'r grwpiau poblogaeth y gallai polisi/prosiect/cynnig effeithio arnynt. Dim ond canllaw yw'r adnodd hwn ac nid yw'n gynhwysfawr. Er gwybodaeth hefyd, cydnabyddir y gall y derminoleg newid dros amser.*

### Grwpiau Poblogaeth:

Mae rhai grwpiau o'r boblogaeth yn fwy agored i ddioddef anghydraddoldebau iechyd. Mewn HIA, mae sensitifrwydd i effeithiau-boed yn gadarnhaol neu negyddol-yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun a natur y cynnig. Gallai fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag amryw o anafanteision.

#### Grwpiau Rhyw/Rhywedd

- Benyw
- Gwryw
- Trawsryweddol
- Anneuaidd
- Arall (*nodwch*)

#### Grwpiau oedran (*Gellir nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig*)

- Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a babanod hyd at 2 oed)
- Plant a phobl ifanc
- Oedolion o oedran gweithio
- Pobl hŷn

#### Grwpiau cyflogaeth / incwm

- Economaidd weithgar
- Economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl ar gcontractau dros dro neu dim oriau
- Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch
- Di-waith/heb waith
- Gwirfoddolwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

#### Grwpiau y mae risg uwch iddynt wynebu gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Gofalwyr
- Lleiafrifoedd ethnig (*nodwch*)
- Cyn-droseddwyr
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Digartref neu heb gartref sefydlog
- Iaith/diwylliant (*nodwch*)
- Teuluoedd rhiant unigol
- Plant sy'n derbyn gofal neu'r rheini sy'n gadael gofal
- Troseddwyr
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl ag anabledau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Grwpiau crefyddol (*nodwch*)
- Gweithwyr rhyw
- Grwpiau cyfeiriadedd rhywiol
- Cyn-filwyr neu staff milwrol

#### Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol

- Pobl mewn lleoliadau allweddol: manau gweithio/ysgolion/ysbytai/cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n arddangos dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol neu wledig
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig neu wedi'u gorboblogi
- Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

## Penderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant:

### 1. Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd

- Deiet / maeth / bwydo babanod
- Gweithgaredd corfforol
- Ymddygiad caethiwus/cymryd risgiau (gamblo, camddefnyddio sylweddau, fepio, smygu, alcohol)
- Defnyddio meddyginiaeth heb bresgripsiwn, a chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn.
- Gweithgaredd rhywiol
- Patrymau cysgu
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

### 2. Amodau cymdeithasol a chymunedol sy'n effeithio ar iechyd

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Grym a dylanwad y dinesydd
- Cydlyniant cymunedol, hunaniaeth, balchder lleol a gwytnwch
- Dadleoli
- Perthnasoedd teuluol a pherthnasoedd â chyfoedion
- Iaith
- Ethos diwylliannol ac ysbrydol
- Natur gymdogol
- Mathau eraill o allgáu cymdeithasol h.y. digartrefedd, carchariad
- Magu plant ac ymlyniad baban (cysylltiad agos cynnar rhwng baban a'r prif ddarparwr gofal)
- Pwysau gan gyfoedion
- Hiliaeth
- Ymdeimlad o berthyn
- Ynysigrwydd/unigedd cymdeithasol
- Cyfalaf, cefnogaeth a rhwydweithiau cymdeithasol
- Gwirfoddoli
- Trais ac aflonyddu

### 3. Iechyd a Llesiant Meddyliol

A allai fod effeithiau posibl ar:

- Lesiant emosiynol, bodlonrwydd â bywyd neu wytnwch?
- Ymdeimlad o reolaeth?
- Teimlo'n werth chweil, yn cael eu gwerthfawrogi neu ag ymdeimlad o ddiben?
- Ansicrwydd neu orbryder?
- Teimlo'n ddiogel?
- Cymryd rhan mewn bywyd cymunedol ac economaidd?

### 4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

- Ansawdd yr aer
- Apêl ardal
- Diogelwch cymunedol
- Mynediad, argaeledd ac ansawdd manau gwyrdd a glas, a naturiol
- Ansawdd, deiliadaeth a gwytnwch tai
- Yr amgylchedd dan do
- Iechyd a diogelwch h.y. cwmpadau, diogelwch y cartref, diogelwch manau cyhoeddus
- Llygredd golau
- Sŵn
- Ansawdd a diogelwch manau chwarae (ffurfiol ac anffurfiol)
- Diogelwch ffyrdd
- Arogleuon
- Trosglwyddiad clefydau trosglwyddadwy
- Amgylchedd trefol/gwledig adeiledig a dyluniad cymdogaethau
- Gwaredu gwastraff, ailgylchu a thipio anghyfreithlon
- Ansawdd y dŵr h.y. dŵr y môr

## 5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

- Anweithgarwch economaidd
- Lefelau incwm
- Dyled bersonol a dyled aelwyd
- Tlodi gan gynnwys tlodi bwyd a thanwydd
- Math o gyflogaeth h.y. parhaol/dros dro, amser llawn/rhan amser
- Diweithdra / Cyflogaeth
- Amodau gweithio h.y. amgylchedd gweithio, bwlio, iechyd a diogelwch

## 6. Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd

- Cyngor gyrfaol
- Addysg a hyfforddiant
- Technoleg gwybodaeth, mynediad at y rhyngwrwyd, gwasanaethau digidol
- Gwasanaethau hamdden
- Gwasanaethau meddygol ac iechyd
- Gwasanaethau gofalu eraill h.y. gofal cymdeithasol; y Trydydd Sector; gwasanaethau ieuencid; gofal plant
- Amwynderau cyhoeddus h.y. neuaddau pentref, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol
- Siopau a gwasanaethau masnachol
- Trafnidiaeth gan gynnwys parcio, trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol

## 7. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

- Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd h.y. llifogydd, tywydd poeth
- Bioamrywiaeth
- Penderfynyddion, budd a dylanwad masnachol
- Costau byw h.y. prisiau bwyd, rhent, trafndiaeth a thai
- Datblygu economaidd gan gynnwys masnach a chytundebau masnach
- Polisiâu'r llywodraeth (y DU a datganoledig) h.y. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, Treth Economaidd-gymdeithasol
- Cynnyrch Domestig Gros
- Chwyddiant
- Adfywio
- Datblygu cynaliadwy
- Hawliau dynol

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Enghraifft o agenda gweithdy cyfranogol

*Dyma enghraifft o agenda i'w defnyddio wrth gynnal gweithdy cyfranogol ar gam Sgrinio neu ar gam Arfarnu'r HIA.*

Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan yn y gweithdy Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) hwn ar <nodwch enw'r cynnig sy'n cael ei asesu>. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol, ac mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'r gweithdy ar unrhyw adeg.

**Hwylusydd y Gweithdy:** <nodwch yr enw fel sy'n briodol>

15 munud	Cofrestru (os yw wyneb yn wyneb)
10 munud	Cyflwyniadau
10 munud	Amlinelliad o'r cynnig i'w asesu
10 munud	Amlinelliad o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r bore
5 munud	Cyflwyniad i'r adnodd 'Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant'.
55 munud	Trafodaeth – defnyddio'r adnodd 'Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant' a'r 'Templed cofnodi sgrinio' neu'r 'Templed cofnodi'r gweithdy HIA' i nodi effeithiau iechyd allweddol y cynnig a'r grwpiau poblogaeth sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio.
15 munud	Egwyl
30 munud	Trafodaeth – parhad
45 munud	Adborth neu argymhellion
5 munud	Diwedd glo a Gwerthuso

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Tabled Cofnodi'r Gweithdy Cyfranogol

*Gellir defnyddio'r tabled hwn ar y Cam Arfarnu Tystiolaeth o'r broses HIA i helpu i gofnodi trafodaethau yn ystod gweithdy cyfranogol. Dylid defnyddio hwn ochr yn ochr â'r adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant.*

**Dyddiad:**

---

**Teitl:**

---

**Disgrifiad:**

---

**Cadeirydd y Gweithdy:**

---

**Hwylusydd y Gweithdy:**

---

**Rhestr o'r sefydliadau a gynrychiolir yn y gweithdy:**

## 1. Grwpiau poblogaeth allweddol yr effeithiwyd arnynt neu a allai gael eu heffeithio

Gan ddefnyddio'r rhestr o grwpiau poblogaeth yn yr adnodd *Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant*, aseswch pa grwpiau ymysg y boblogaeth gyffredinol y gallai'r cynnig effeithio arnynt a sut:

### Grwpiau poblogaeth:

### Grwpiau eraill:

## 2. Penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant

*Gan ddefnyddio'r adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant, ystyriwch:*

- a. sut (ym mha ffordd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), a
- b. i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach) y gallai'r grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyffredinol ei hunan gael eu heffeithio gan y cynnig neu y gallai'r cynnig fod â goblygiadau iddynt – a chrynowch hyn ar gyfer pob rhan ar y daflen isod. Os nad oes unrhyw effaith debygol neu os yw'r effaith yn fach iawn, yna symudwch i'r rhan nesaf.

Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

Amodau cymdeithasol a chymunedol sy'n effeithio ar iechyd		Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

Iechyd Meddwl a Llesiant		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

Yr amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

**Sylwadau:**

**Argymhellion:**

### 3. Crynodeb o'r Effeithiau Iechyd a Llesiant Posibl a Nodwyd

### 4. Crynodeb o'r Argymhellion

*Darperir y tabled hwn fel cymorth ac arweiniad yn unig. Mae'r holl gynnwys a roddir a'r penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio'r tabled yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r sefydliad perthnasol ac nid Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

**Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

## Atodiad 7: Mesur a rhagweld effeithiau

---

### Ymateb Amlygiad a Dos

Gall ymateb amlygiad a dos fod yn ddefnyddiol i amcangyfrif amlygiad mewn sefyllfaoedd clinigol neu amgylcheddol yn bennaf – achosion lle gellir cael llawer iawn o ddata a mesuriadau technegol manwl gywir (er ei bod yn bwysig cofio y gall mesur effeithiau ar iechyd fod yr un mor ddamcaniaethol â mathau eraill o ragfynegi ac mae'n dibynnu'n fawr ar ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif). Bydd yn asesu pa mor fawr fydd y newid o fewn y boblogaeth sy'n agored i niwed a beth fydd yr effaith ganlyniadol ar y boblogaeth honno. Fodd bynnag, gall defnyddio'r math hwn o dystiolaeth fod yn gymhleth ac mae ffactorau sy'n lleihau gwerth defnyddio'r fethodoleg hon yn unig wrth ragweld effeithiau posibl ar iechyd. Yn yr enghraifft o amlygiad i lygryddion, gall fod oedi cyn i unrhyw ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol ddod i'r amlwg. Mae cromlin ymateb dos yn edrych ar sefyllfa ar ei phen ei hun yn unig ac nid yw'n ystyried unrhyw effeithiau cronol, nac unrhyw ffactorau eraill sy'n cyfrannu at y sefyllfa, ac efallai y bydd grwpiau o fewn y boblogaeth a allai fod yn fwy agored i effaith neu glefyd penodol na'r boblogaeth gyfan. Gall hyn wneud mesur effeithiau o ran iechyd y cyhoedd yn heriol.

### Modelu Ffurfiol

Gall modelu ffurfiol fod yn ddefnyddiol wrth nodi, disgrifio a rhagweld effeithiau ac effeithiau posibl ar iechyd y boblogaeth. Gellir defnyddio technegau modelu ochr yn ochr â dulliau ymateb dos a gallant fod yn arbennig o ddefnyddiol pan gânt eu defnyddio i asesu ymyriadau clinigol ac amgylcheddol megis rhagfynegi effeithiau ysmegu, yfed alcohol neu allyriadau gronynnol i'r atmosffer. Unwaith eto, mae'r rhain yn tueddu i ddefnyddio dystiolaeth epidemiolegol a/neu docsicolegol i ragweld effeithiau. Mae'r technegau hyn yn ffordd fathemategol o nodi effeithiau posibl ar iechyd drwy wneud set o ragdybiaethau am achosiaeth a gwneud rhagamcanion rhesymegol i ragweld maint unrhyw effeithiau neu ganlyniadau. Er enghraifft, gall model dybio, os bydd A yn digwydd, ar amser neu yn amgylchiadau B, mai C fydd y canlyniad. Gellir addasu data a rhagdybiaethau i roi gwahanol senarios a rhagweld gwahanol ganlyniadau – y gellir eu disgrifio fel rhai buddiol neu niweidiol. Gellir defnyddio'r rhain i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Mae sawl enghraifft o fodlau'n cael eu defnyddio gan grwpiau yn Ewrop gan gynnwys BoD, ENHIS X-Prob (Mekel 2007<sup>2</sup>). Mae'r rhain hefyd yn cynnwys DYNAMO-HIA7, sef offeryn Ewropeidd ar y we a grëwyd fel rhan o brosiect a sefydlwyd yn 2007 i gefnogi rhagfynegi effeithiau iechyd ar benderfynyddion iechyd ehangach mewn polisiau Ewropeidd. Er y gall y dechneg hon fod yn ddefnyddiol, mae yna rai anfanteision, fel gyda dulliau ymateb dos. Mae'r model ond cystal â'r rhagdybiaethau a wneir a'r data a ddefnyddir ac unwaith eto, nid ydynt yn rhoi darlun ehangach o sut y bydd iechyd a llesiant y boblogaeth neu'r gymuned yn cael eu heffeithio. Er y gellir gwneud rhagfynegiadau, gall fod yn anodd sicrhau pendantrwydd y rhagfynegiadau hyn neu amrywiadau ynddynt. Felly, dylid syntheseiddio unrhyw ganlyniadau o fodlau neu ddulliau meintiol bob amser â thystiolaeth ac ymchwil arall – gan gynnwys cydweithio ag

---

2 Mekel O (2007) The Quality of prediction in HIA and organisational constraints. European Meeting on Health and Health Systems Impact Assessment, Lisbon, 2007. Cyflwyniad gweithdy

## Atodiad 7: Mesur a rhagweld effeithiau (parhad)

---

asiantaethau eraill a chyfranogiad â chymunedau i greu darlun mwy crwn a chytbwys o unrhyw effeithiau ar iechyd a llesiant.

### Diagramau Achosol a Mapio

Gall diagramau achosol a mapio effeithiau fod yn ffordd ddefnyddiol o ddarlunio effeithiau posibl cynnig ar iechyd. Mae hefyd yn addas ar gyfer defnyddio dulliau gweithio system. Gall llunio diagram wahaniaethu'n ddarluniadol rhwng unrhyw effeithiau, eu natur a'u maint ac unrhyw newidiadau posibl ar iechyd a llesiant. Dylid mireinio ac esblygu'r math hwn o fap wrth i'r HIA fynd rhagddo. Gall diagram achosol gysylltu llwybrau â'i gilydd ac amlygu rhyngweithiadau rhyngddynt. Gellir ei ddefnyddio fel man cychwyn i ystyried yr effaith ar iechyd, yn ystod y cyfnod cwmpasu neu i ddangos yr effeithiau. Gellir trafod llwybrau a'u gadael i mewn neu eu dileu yn ystod y broses (yn dibynnu ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir) i ddarparu diagram neu fap terfynol.